

ECO'R WYDDFA

Rhif 247

GORFFENNAF 1998

Pris 30c

Buddugoliaeth

Llongyfarchiadau i Fand 'Swing' Ysgol Brynrefail ar eu buddugoliaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwlheli. (Ysgolion David Hughes, Porthaethwy ac Ystalyfera oedd yn rhannu'r llwyfan yn erbyn Brynrefail.) Ddwy flynedd yn ôl roedd Brynrefail wedi ennill y drydedd wobwr yn yr un gystadleuaeth. Bu ond y dim i'r Band fethu â chystadlu o gwbl eleni gan fod nifer o'r aelodau yn absennol o'r Eisteddfod Sir oherwydd eu bod yn Abertawe ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Cymru. Diolch nad oedd neb yn cystadlu yn erbyn 'hanner Band' Brynrefail y diwrnod hwnnw! Llongyfarchiadau i'r Band a'u hyfforddwr, Mr Gareth Hughes Jones. Mae dau o'r aelodau wedi eu dewis i Fand Pres Ieuencid Cymru, sef Dewi Griffiths (am y trydydd tro) a Jennie Lyn Morris (am y tro cyntaf).

Dal i Ennill



sydd ar ei flwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail, yn parhau â'i lwyddiant anhygoel yn y pwll nofio.

Bu'n cystadlu yng Nghystadlaethau Unigol Gogledd Cymru ym mis Mehefin. Cynhaliwyd y pencampwriaethau dros ddau benwythnos, ym Mangor a Threffynnon. Roedd Eifion yn cystadlu mewn 11 ras . . . enillodd 11 medal aur . . . a thorri record Gogledd Cymru yn yr 11 ras. Does dim angen dweud iddo ennill Victor Ludorum ei grŵp oedran a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol.

Cyn hynny bu'n cystadlu yn Sheffield mewn pum ras ac enillodd bedair medal aur ac un arian, yn ogystal â gwobr y bachgen gorau yn ei oedran.

Nid yn aml y rhown ni sylw ar y dudalen flaen ddwywaith o fewn tri rhifyn i'w gilydd i'r un person. Ond anodd yw peidio y tro hwn. Mae Eifion Williams,

Ym mis Awst bydd yn cystadlu yng Nghystadlaethau Prydain ei oedran yn Leeds. Dymuniadau gorau iddo yn ei bum ras y diwrnod hwnnw. Wedi hynny caiff seibiant haeddiannol o'r rasio gan y bydd tymor nofio yn dod i ben cyn ailgychwyn ymhen rhyw dri mis.



Tlws yr Eco

Cafwyd cystadlu brwd eleni eto noson Tlws yr Eco ar gae Ysgol Gynradd Llanrug. Roedd 16 tîm pêl-droed ac 8 tîm pêl-rwyd yn ymgiprys am y pedwar Tlws. Erbyn diwedd y chwarae Llanrug a Llanberis oedd wedi dod i'r brig. Enillodd Llanrug y Tlws gwreiddiol, sef y pêl-droed dan 11 oed, a'r pêl-rwyd dan 9 oed.

Am yr ail flwyddyn o'r bron cafwyd noson gynnes braf a daeth tyrfa gref i weld y gêmiau ac i gefnogi'r plant. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r noson gynnwys cystadlaethau pêl-rwyd, ac yr oedd yr arbrawf yn llwyddiant mawr. Diolch i

Ysgolion Llanrug a Llanberis am addewid o rodd o dylsau ar gyfer y cystadlaethau hyn.

Trefnwyd y noson gan y Golygydd Chwaraeon, Richard Lloyd Jones, a diolchwn yn fawr iddo am ei holl waith a'i frwdfrydedd sy'n sicrhau llwyddiant y noson o flwyddyn i flwyddyn. Fel y dywed ef ei hun yn ei adroddiad ar y dudalen chwaraeon, roedd dros 200 o blant yn cymryd rhan eleni. Llongyfarchiadau i'r timau buddugol, ac i bawb a fu'n cystadlu, a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson.



ECO'R WYDDFA

Rhif 247
GORFFENNAF 1998

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLANIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MEDI 10

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, AWST 31

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â
MEDI	AWST 31	MEDI 10	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 21	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 19	HYDREF 29	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 16	TACHWEDD 26	CAEATHRO	Mr Clive James

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (01248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (01286) 650556

DEINIOLLEN: Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos y Faenol (01286) 871174

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (01286) 872390

Llythyrau

Gwybodaeth am yr Hen 'Sbyty

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf i ddatgan fy niolch i
amryw o ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa*
am gysylltu â mi parthed Chwael
Dinorwig. Mae'r wybodaeth am yr
Hen Ysbyty yn arbennig o werthfawr
i mi oherwydd gwyddwn fod ysbyty
wedi ei hadeiladu yn y Chwael yn
yr 1840au ac nad oedd yr ysbyty
'bresennol' wedi'i hadeiladu tan
1861.

Wrth astudio'r dogfennau daeth
patrwm diddorol sydd yn rhoddi
darlun o afiechydon y chwaelwyr,
yn cynnwys clefyd y llwch yn
naturiol. Mae ein dyled heddiw i Mr
R. H. Mills Roberts am gofnodion y
1890au yr un mor fawr ag ydoedd
dyled ein hynafiaid am ei wasanaeth
yr adeg honno. Gresyn iddo wneud
y sylw fod chwaela yn orchwyl iach
gan wadu nad oedd y llwch yn
niweidiol. Efallai y dylem gofio mai
dyna farn llawer o feddygon ei
gyfnod.

Fodd bynnag, pwrpas y nodyn
hwn yw datgan fy niolch, gan
ychwanegu y buaswn yn falch o
unrhyw wybodaeth am y Chwael yn
arbennig yn y cyfnod ar ddechrau'r
ganrif bresennol.

Yn ddiffuant.

(Dr) EDWARD DAVIES
Llechwedd

Cerrigydrudion, Corwen LL21 9SU

Llainwen . . .

Annwyl Olygydd,
Mae Cymdeithas Tir Agored (*The
Open Space Society*), y corff
cadwraeth hynaf ym Mhrydain, yn
bryderus bod rhai awdurdodau lleol
a'r Gyfraith yn atal ymdrechion i
gofrestru tir yn llain gwyrdd fel y
gellir atal gorddatblygu'r safleoedd
hynny.

Yn rhifyn diweddaraf ein
cylchgrawn *Open Spaces* rydym yn
feirniadol o rai awdurdodau lleol nad
ydynt yn trin yn deg geisiadau i
gofrestru tir yn llain gwyrdd. Yn aml
iawn, yr awdurdod sy'n ystyried y
cais i gofrestru'r tir yw'r awdurdod
sydd piau'r tir, neu gall yr awdurdod
lleol fod wedi nodi cynnwys y tir yn
ei gynllun datblygu neu fod â rhyw
ddiddordeb ynddo. Yr unig ffordd y
gall awdurdod lleol gael ei weld yn
gwneud penderfyniad teg ar gais am
gofrestru tir yn llain werdd yw trwy
gynnal ymchwiliad gerbron arolygwr
annibynnol.

Yn ddiweddar mae'r gymdeithas
hon wedi perswadio Cyngor Black-
pool i gynnal ymchwiliad ynglŷn â
darn o dir. Rydym hefyd wedi annog
Cyngor Gogledd Tyneside a Chyngor
Caerdydd i gynnal ymchwiliadau.

Ysgrifennwn atoch chi i hysbysu
eich darllenwyr ein bod hefyd wedi
annog Cyngor Gwynedd i gynnal
ymchwiliad annibynnol ynglŷn â'r
cais i gofrestru'r tir yn Llainwen,
Llanberis, yn llain werdd. Gobeithiwn
fod o help i'r bobl hynny yn lleol sy'n
ymdrechu i ddiogelu'r darn tir hwn.

KATE ASHBROOK
Open Spaces Soceity
24A Bell Street
Henley-on-Thames
Oxon.
(0491) 573535

Gwarchod y Parc Mawr

Annwyl Olygydd,
Hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd
ein hymgyrch yn gwrthwynebu'r
cynlluniau i droi rhan o'r Parc Mawr
yn faes parcio.

Cafwyd cefnogaeth frwdfrydig
iawn gan y rhan helaeth o drigolion
y pentref i gadw'r tir hwn yn wyrdd,
er lles yr amgylchfyd ac er mwyn
mwynhad cenedlaethau i ddod.

Gyda diolch ar ran
pobol 'Limbo'

GARI DAVIES
9 Maes Derlwyn, Llanberis

YN EISIAU

Tŷ DWY NEU DAIR LLOFFT

i'w rentu o fis Awst ymlaen i
gwpwl ifanc proffesiynol.

Fedrwch chi ein helpu!

Cysylltwch â:
(01222) 751424

Cynhelir

CYMANFA GANU HENADURIAETH ARFON yng NGHAPEL COCH LLANBERIS

NOS SUL, 5 GORFFENNAF
am 6 o'r gloch

Arweinydd:

Mrs Lowri P. Roberts-Williams

Defnyddir y 'Detholiad'

CROESO CYNNES I BAWB

Cefnogwch ein
Hysbysebwy



WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD

BANGOR
(01248)
354646

Gyrru'r Tryc Ffyrch-codi



Roedd Mark Roberts yn un o dri aelod o staff Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd (rhan o Antur Waunfawr) yn llwyddiannus yn ddiweddar mewn prawf gyrru tryc ffyrch-codi.

Dywedodd Huw Davies, Rheolwr Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd: 'Rydym yn falch iawn fod ein polisi o ofalu fod cyfleoedd hyfforddiant ar gael i bob aelod o'n staff mor llwyddiannus.'

Mae Mark wedi gweithio efo'r Antur ers iddo adael Ysgol Pendalar yn 1994 ac mae'n gobeithio dilyn cwrs NVQ ar gynnal a chadw ffyrch-codi.

Bu Huw Davies a Nick Taylor hefyd yn llwyddiannus gyda'r prawf tryc ffyrch-codi.

Pencampwr Cigyddion y Gogledd



Unwaith eto daeth Wavell Roberts â Phencampwriaeth Cyngor Gwerthwyr Cig Gogledd Cymru yn ôl i Lanrug, a chadarnhau geiriad ei hysbyseb yn yr *Eco* o fod yn 'ben cigydd'. Ar ddechrau Mehefin roedd cigyddion o bob rhan o Ogledd Cymru wedi ymgynull yng Ngwesty Bae Colwyn i ymgiprys am wahanol wobrau ynglŷn â pharatoi bwydydd cig.

Daeth Wavell (a welir yn y llun yn arddangos ei dlysau) yn

gyntaf mewn tri dosbarth — selsig porc traddodiadol, pastai porc draddodiadol a phastai cyw iâr blasus. Roedd ei selsig wedyn yn mynd ymlaen i'r brif gystadleuaeth, sef Pencampwr y Pencampwyr. Roedd tri dosbarth gwahanol o selsig — traddodiadol, arbennig a'r rhai braster isel. Daeth selsig traddodiadol Wavell i'r brig unwaith eto gan ennill yr hawl iddo gynrychioli Gogledd Cymru yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd ddiwedd mis Gorffennaf a hefyd ym mhencampwriaeth Prydain yn Llundain fis Chwefror y flwyddyn nesaf. Dyma'r ail waith iddo gael y frain o gystadlu yn Llundain ac y mae eisoes wedi ennill yn Llanellwedd dair blynedd yn ôl.

Hei lwc y daw â Phencampwriaeth Cymru yn ôl i Lanrug cyn diwedd yr haf. Does ryfedd fod cwsmeriaid newydd yn cyrchu i'w siop i chwilio am selsig dros yr wythnosau diwethaf.

inclên a lifft yr olwyn ddŵr yn gweithio a chaffi newydd 'Y Ffowntan' yn agored. Yn ogystal bydd actorion a dawnswyr clocio yn diddori'r ymwelwyr.

Dylai od yn ddiwrnod diddorol a hwyliog. Mae gwahoddiad agored i bawb ymweld â'r Amgueddfa y prynhawn hwnnw, **ar ôl 2.30 o'r gloch a hynny yn rhad ac am ddim. Ni fydd yr Amgueddfa yn agored y bore hwnnw. A'r dyddiad eto? Dydd Gwener, Gorffennaf 17.**


Yr Amgueddfa ar i fyny . . .

Mae'r gwaith o addasu ac adnewyddu Amgueddfa Lechi Cymru yn mynd rhagddo'n llwyddiannus. Mae'r *Eco* wedi crybwyll rhai o'r newidiadau hynny dros y misoedd diwethaf.

Mae hen dŷ'r Prif Beiranydd wedi'i ailddodrefnu a'i adfer i'w gyflwr gwreiddiol. Adeiladwyd siop newydd ar iard y Gilfach Ddu. Erbyn hyn mae rhai o'r cynlluniau eraill y clywsom amdanynt ar fin cael eu cwblhau. Mae lifft wedi ei gosod i gludo ymwelwyr ag anableddau at yr olwyn ddŵr ac mae un o brif inclenau Chwarel Vivian wedi ei hadfer. Mae'r ddau atyniad yma yn arbennig o ddiddorol wrth gwrs, gan mai dyma'r olwyn ddŵr fwyaf a'r unig inclên o'i bath fydd yn gweithio yng ngwledydd Prydain.

Bydd yr atyniadau newydd hyn yn barod erbyn diwrnod ail-lawnsio'r Amgueddfa ddydd Gwener, Gorffennaf 17. Trefnwyd nifer o weithgareddau ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Cyflwyniad dawns a chân fydd 'Côr Meibion' gan Gôr y Penrhyn a Sioned Huws, yn cychwyn am 3 o'r gloch gyda gorymdaith o'r Amgueddfa at Chwarel Vivian ar gyfer y perfformiad. Bydd cyfle i weld sioe 3D newydd yr Amgueddfa, 'Dwyn Mynydd', nifer o ddehongliadau newydd o gwmpas yr adeiladau. Bydd yr



CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod.

Ceir manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

JOHN H. HUGHES
TAN Y CLOGWYN, LLANBERIS
GWYNEDD LL55 4LF
Ffôn: (01286) 871562

Y Ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd **erbyn 31 AWST 1998.** Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CYNGOR CYMUNED BETWS GARMON

Derbynir ceisiadau am swydd

CLERC Y GYMUNED UCHOD

Manylion pellach gan:

Mrs Glenys Williams

Ty'n Weirglodd

Betws Garmon, Gwynedd LL54 7YT

Ffôn: (01286) 650 360

Dyddiad cau: 31 Gorffennaf 1998

Y Gymraeg yn hanfodol.

O SIAMBAR SELWYN

Mi fydda i'n cael llawer o fwynhad drwy ddarllen hen Gyfansoddiadau a Beirniadaethau yr Eisteddfod Genedlaethol, a phan fydda i'n pacio fy nghes i fynd oddi cartref am sbelan gellwch fentro y bydd un neu ddwy o'r cyfrolau hyn yn cael trip hefyd.

'Rydan ni ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol Penybont ar Ogwr. Aeth hanner can mlynedd heibio ers i'r brifwyl gael ei chynnal yno ddiwethaf. Fe anrhydeddwyd dau brifardd go amlwg yn yr ŵyl honno. Dewi Emrys yn ennill ei bedwaredd cadair cenedlaethol; ac Euros Bowen yn ennill ei goron gyntaf. Ffugenw Dewi Emrys oedd 'Mab y Ddrycin' ac os oedd rhywun wedi profi drycinoedd bywyd, wel Dewi oedd hwnnw.

Darllenwch gyfrol y Prifardd Eluned Phillips i gael hanes Dewi fel cystadleuydd a dadleuwr dros y blynyddoedd. Roedd o'n feistr ar ailbobi ei gerddi a cheir amryw o'r un llinellau o'i eiddo mewn sawl awdl dros y blynyddoedd, e.e., roedd yr hir a thoddaid isod allan o'i awdl fuddugol 'Yr Alltud' ym Mhen-y-bont (1948) yn ei awdl anfuddugol 'Harlech' yn Wrecsam (1933):

*O! na chawn eithaith o'r daith adwythig
Wr o ddiandanwch ar ffriddoedd unig
Gweled tawelfro'r pinaglau talfrig,
Ail ddringo'i chreigiau a'i llethrau llithrig
Drachtio'i hoen gyda'r oenig — a'r
chwa bur*

A chladdu cur dan ei chloddiau cerrig.

Enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe mor bell yn ôl a 1926 ond gan fod y Gyfraith ar ei ôl am iddo beidio â thalu tuag at gadw ei wraig a'i blant fe aeth Dewi a'r Goron i 'pawn shop' yn Abertawe.

Ddaeth y Goron honno byth yn ôl i Dewi nac i ddwylo yr un perthynas iddo ond, yn 1936, fe'i prynwyd am dair punt gan ŵr o'r enw Wilfred Harrison a oedd yn berchen ar dŷ o'r enw 'Hunters' Lodge' yng Nghei Newydd. Fel hyn yr adroddodd Mr Harrison yr hanes yn y *Western Mail* yn 1964:

'I visited a shop at the corner of Heathfield Street and Union Street (which is now Kingsway), a few days before the owner died in 1936. He must have had a premonition that he was going to die, because he asked me to buy the Crown. He said he knew I would care for it. The shop was struck by a bomb in 1943 and everything in it was

lost. I kept the secret under my hat until after Dewi's death in 1952.

Do, bu llawer yn chwilio am Goron Abertawe dros y blynyddoedd ac yn ôl darlith a draddodwyd ar Dewi Emrys yn Eisteddfod Maldwyn, 1981, gan y Prifardd T. Llew Jones, dywed: 'Hyd y gwyddom, mae'r Goron yn awr yn "Hunters' Lodge", Cei Newydd, o fewn llathenni i'r fan lle ganed Dewi Emrys.' Ble mae'r Goron bellach, ys gwn i?

Bu farw Dewi Emrys ar 20 Medi 1952 yn ysbyty Aberystwyth a chladdwyd ef ym mynwent Pisgah, Talgarreg. Ychydig iawn o bobl a welodd yn dda i fynd i'w angladd — roedd y capel yn hanner gwag. Adroddwyd yn *Y Cymro*:

'Bydd y genedl yfory efallai yn galw am gwrdd coffa, a thrannoeth am gofeb, a thrennydd am rali o deyrnged. Ond fe gladdwyd Dewi yr wythnos ddiwethaf ac ychydig a welodd eu ffordd i ddod i'w angladd.

Fe ofalodd ei gyfeillion fod ychydig o bridd Pen-Caer a Garn Gwyl, y fro a oedd wedi bod mor agos at galon y bardd, yn cael ei dywallt ar ei arch, ac fe ddaeth y Parch. Jacob Davies o hyd i gwpled mewn dror yn y Bwthyn, Talgarreg — cwpled yr oedd Dewi wedi'i adael i'w gosod ar ei garreg fedd.'

Fu erioed gwpled mwy addas i 'Fab y Ddrycin':

*Melys hedd wedi aml i siom
Distawrwydd wedi storom.*

O edrych drwy'r gyfrol *Awen Arfon*, a gyhoeddwyd yn 1962,

deuthum ar draws y soned a luniais ar y testun, 'Angladd Mab y Ddrycin'. Oedd, roedd Dewi Emrys yn dipyn o arwr gen i a fydda i byth yn mynd heibio Talgarreg heb oedi ennyd uwch ei fedd.

ANGLADD MAB Y DDRYGIN

*'A'i oedran fel yr hydref,' aed ag ef
O'r Bwthyn a fu'n Babel Awen fyw,
I'w felys hun ar ôl y storom gref
O aml siom ei fyd yn weddill gwyw;
Chwythai y storm ei ffanffer drwy'r
prynhawen*

*O roi ei mab ym mhriidd ei olaf gell,
Pisgah Talgarreg, dim ond hanner llawn'
Ac enwog wŷr ein llen ar 'orwel pell';
O fro ei febyd daeth y 'bigel cu'
O lethre y Garn Fawr i dalu parch,
Ymgrymodd ennyd uwch y 'dwynshwn du'
Gan wasgar 'pridd Rhosceire' ar ei arch,
A throi ei gefn, a mynd yn drist ei wedd
Drwy'r storm a wylai'i molawd uwch y bedd*

Ymhen rhai blynyddoedd ar ôl cyfansoddi'r uchod fe ddaeth 'na hen frawd ata i yn un o'r eisteddfodau a dweud mai ef a wasgarodd bridd Rhosceire ar arch Dewi Emrys.

Ys gwn i a gofir ym Mhenybont ar Ogwr eleni mai yno, hanner can mlynedd yn ôl, yr enillodd Dewi Emrys ei gadair olaf?

Roedd Dewi wedi ennill ar ei englyn enwog i'r 'Gorwel' y flwyddyn cynt (1947) ym Mae Colwyn; ac yn Eisteddfod Penybont ar Ogwr (1948) fe wobrwyrwyd englyn cofiadwy arall, sef englyn Thomas Richards, Llanfrothen i'r 'Ci Defaid' allan o 218 o ymgeiswyr. Roedd 'na gini o wobr:

CI DEFAID

*Rhwydd gamwr hawdd ei gymell — i'r
mynydd*

*A'r manau anghysbell;
Hel a didol diadell
Yw camp hwn yn y cwm pell.*

Gawn ni englyn cystal eleni, tybed — am ganpunt?

Hwyl ichi yn yr Eisteddfod a thros y gwyliau.

DRAENOG

Roedd y gŵr o Ddeiniolen wrth ei fodd efo'i gar newydd... ond bu'n rhaid galw am help yn gynt na'r disgwyl pan fethodd o gychwyn y car. Doedd o ddim wedi gweld clo-llyw (steering-lock) o'r blaen, a wydda fo ddim bod angen ei ddatgloi cyn bod y car yn tanio.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith), 677438 (cartref)

COLLED. Ddechrau mis Mehefin bu farw Stanley Griffith, brawd Gwilym Griffith, Bryn y Gof. Harrogate fu cartref Stanley am dros hanner can mlynedd ond, fel y gwelwyd yn ei gyfraniadau cyson i'r *Eco* roedd yn dal yn rhugl a graenus ei Gymraeg. Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

TYNFA FISOL. Enillwyr mis Mehefin oedd — £40: Ellen Burke, Arosfa, Caeathro Bach (24); £25: Y. Thomas, 23 Tai Glangwna (56); £15: N. Evans, Llecyn Clyd (96); £5: Sally Harris, Cefn Gof (58).

Mae Pwyllgor y Cae Chwarae yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaol y cyfranwyr. Cynhelir Is-bwyllgor am 7.30 o'r gloch nos Wener, 3 Gorffennaf, yng Nglangwna.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Gorffennaf —

5: Gweinidog (2)

12: Parchg Gareth Alban (10)

19: Gweinidog (10)

26: Cyhoeddiad lleol

MAES CHWARAE'R PLANT LLEIAF.

Cynhelir cyfarfod yn y Ganolfan, Waunfawr am 7.30 o'r gloch, nos Iau, 2 Gorffennaf, gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned, Cyngor Gwynedd, Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro, a'r Cynghorydd Eurig Wyn, i hyrwyddo datblygu a rheoli'r man chwarae arfaethedig.

LLONGYFARCHIADAU. Anaml iawn y clywn ni am ddyweddïad pâr yng Nghaeathro ond y mis yma fe gyhoeddwyd dyweddïad Aaron Evans, Llecyn Clyd â Nicola Lambert; ac Elfyn Roberts, 10 Erw Wen â Caren Williams.

LLWYDDIANT ACADEMAIDD. Eleni mae newyddion da yn cyrraedd mewn parau. Mae Ceri Roberts a Manon Huws wedi graddio B.A (Anrhydedd) mewn Cymraeg a Chymdeithaseg o Brifysgol Cymru, Bangor. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

BEICIWR. Llongyfarchiadau i Aled Vaughan, Llwyn Onn, Stad Glangwna am godi arian tuag at Uned Cancr newydd Ysbyty Gwynedd trwy drefnu taith beic noddedig o Ysbyty Clatterbridge, Cilgwri, i Fangor.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy




Gwynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

'Un funud fach . . .' Y POST

Does yr un diwrnod bron nad yw'r postmon yn galw heibio'r tŷ acw. Mae arna'i ofn ei fod yn wastraff llwyr o'i amser a'i egni ambell ddiwrnod, gan fod yr hyn a adawodd yn mynd ar ei union i'r fasged sbwriel — a hynny heb i mi hyd yn oed agor yr amlen os yw'n amlwg mai pamffledi a chylchlythyrau diwerth sydd ynddynt. A byddai'n dda gennyf pe na byddai wedi galw y dyddiau hynny pan na ddaeth â dim i mi ond dau neu dri o filiau! Ambell dro, fodd bynnag, bydd ganddo barsel a rhaid cyfaddef fy mod fel plentyn bach ar fore Dolig ar adegau felly, yn arbennig os na fydd gennyf syniad beth sydd ynddo.

Cefais barsel bach annisgwyl y diwrnod o'r blaen. Lamp fechan oedd ynddo, wedi ei hanfon yn anrheg i mi gan ryw gwmni yswirians neu'i gilydd. Lamp fach digon hwylus a golau da arni. Cyn diwedd y dydd roedd Gruffudd wedi meddiannu'r lamp a minnau'n ei siarsio i fod yn ofalus efo hi gan 'nad ydi hi'n un dda iawn'. 'Pam?' 'Am mai am ddim y cefais i hi.'

Doedd y rhesymeg ddim yn dal dŵr yn ôl Gruffudd. 'Does dim rhaid i bob peth gewch chi am ddim fod yn sâl.' A fo sy'n iawn. Cawsom lawer o'r pethau mwyaf gwerthfawr sydd gennym am ddim: iechyd, teulu a ffrindiau, harddwch gwlad a iaith, bendithion y tymhorau. Maent mor werthfawr am yr union reswm na fedrwn eu prynu.

A rhodd rad ac am ddim yw'r peth mwyaf gwerthfawr y gallwn gael gafael arno. All neb brynu'r bywyd hwnnw y mae'r Arglwydd Iesu Grist yn ei gynnig i ni. Fedr holl aur ac arian y byd brynu'r hyn a ddaw trwyddo Ef. Mae'r llawenydd a'r gobaith a'r heddych cydwobod a ddaw trwy Iesu Grist y tu hwnt i allu pobl i'w brynu na'i haeddu hyd yn oed trwy eu hymdrechion a'u gweithredoedd da a chrefyddol. Anrheg rhad ac am ddim Duw i ni yw'r bywyd hwnnw, a'r cyfan sydd angen i ni ei wneud yw ei dderbyn. Mater o agor y parsel a chymryd y rhodd yw credu yn Iesu Grist a thrwy hynny ei dderbyn fel ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

JOHN PRITCHARD

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DAMWAIN. Da yw deall fod Mr Myrddin Jones, Na n'Og yn gwella'n foddhaol yn dilyn damwain yn ei waith yn ddiweddar.

TRINIAETH. Yn rhifyn Mai o'r Eco roeddem yn llongyfarch Mrs Dorothy Wager, Y Llythyr am ei nofio noddedig a oedd yn gysylltiedig â'r therapi tuag at yr arthrits mae'n dioddef ohono ers misoedd bellach a hynny er budd Cae Chwarae'r pentref. Erbyn hyn rydym yn falch o ddeall ei bod wedi derbyn triniaeth lawfeddygol i'w anhwylder ac yn gwella'n foddhaol. Ei dymuniad yw diolch yn gynnes iawn i bawb am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dod gartref.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos lau, Mehefin 11eg. Y cadeirydd am y noson oedd Mrs Rhian Jones, 3 Trem Eilian. Roedd y myfyrdod dan ofal Mrs Mair Davies. Cafwyd gair o groeso gan y cadeirydd ynghyd â mynegi'r llawenydd o weld Mrs Jennie A. Roberts yn bresennol wedi cyfnod o archwiliad yn Ysbyty Gwynedd a bod Mr Myrddin Jones, Na n'Og yn gwella wedi triniaeth yn dilyn damwain tra wrth ei waith.

Gŵr gwadd y noson oedd Mr Neville Hughes, Bethesda a bu'n bleser gwrando arno'n rhoi sgwrs fywiog a diddorol dan y teitl, 'Hynt, Helynt Hogia Llandygai' — noson o hiwmor iach, adloniant a chyd-ganu. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan y cadeirydd. Paratowyd lluniaeth gan Mrs Eirianwen Evans a Mrs Joan Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 9fed pryd y disgwylir Bethan Jones-Parry, Bangor i roi sgwrs.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Fore Sadwrn, Mehefin 6ed aeth nifer o aelodau o'r gangen i Sêl Cist Car yn Llanrug. Trefnwyd y gweithgaredd hwn mewn ymateb i'r cais ar i bob cangen godi arian i Gronfa Ganolog Sefydliad y Merched. Roedd y tywydd braidd yn anffafriol ond gwnaed elw derbyniol.

Yn anffodus, eto oherwydd y tywydd, bu'n rhaid gohirio'r gweithgaredd awyr agored yn ardal Rhyd-ddu a drefnwyd ar gyfer nos Lun, Mehefin 15fed. Gobeithir cael cyfle cyn yr hydref i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn.

Nos Fawrth, Gorffennaf 14eg, edrychir ymlaen fel cangen am gael ymweld â Theatr Gogledd Cymru yn Llandudno i weld cynhyrchiad o 'Joseph'.

SYMUD CARTREF. Ymadawodd Mrs Grace Ellen Pritchard, 3 Ffrwd Madog â Brynrefail ar Fehefin 20fed i gartrefu ym Mlaenau Ffestiniog ble mae ei mab yn byw. Yn 86 oed ac yn frodor o'r pentref erioed, dymunwn lawer blwyddyn o iechyd a hapusrwydd iddi yn ei hardal newydd.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Trefn yr oedfaon am fis Gorffennaf —

5: Parchg H. Gareth Alban, Bae Colwyn (10).

Cymanfa Ganu'r Henaduriaeth yng Nghapel Coch Llanberis (6).

12: Dr Eryl Wynn Davies, Llanfair-pwll (10).

19: Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon (5.30).

26: Parchg Harri Parri, Caernarfon (5.30).

Ni chynhelir oedfaon yn ystod mis Awst.

DIOLCH. Gwerthfawrogir eto eleni waith caled y criw lluosog a ddaeth i blygu'r Eco nos lau, Mai 28ain. Cafwyd noson hwyliog a gorffen yn brydlon fel arfer a llawenydd oedd cael cwmni wynebaw newydd. Diolch arbennig i Dilys Morris am gludo'r cyfan o'r Wasg ac am waith diflino Ruth, Andrew a Huw! Diolch yn fawr i bawb.

DRAENOG



Mae yna lwybr a stepiau ffyrnt go liwgar tua Tai'r Faenol, Deiniolen y dyddiau yma. Paentio landeri'r tŷ roedd y gŵr ryw ddiwrnod. Tra'n symud yr ysgol — a'r pot paent yn sownd wrthi — syrthiodd y pot ac aeth y paent dros y llwybr. Allan â'r wraig ar unwaith a dechrau llau a cheisio brwsio'r paent i ffwrdd nes bod y stepiau a'r llwybr yn baent drostynt. Bu'n rhaid mynd i brynu pot arall i orffen y job a chymryd arnynt eu bod wedi bwriadu cael llwybr lliwgar!

Ar dy feic . . .!



Charles Roberts, Deiniolen; Aled Fôn, Caeathro; Martin Williams, Clwt-y-bont; Beryl Roberts, nyrs ar Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd; ac Adrian Evans, Llanrug yn cychwyn eu taith reidio noddedig o Ysbyty Clatterbridge i Ysbyty Gwynedd. Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf roeddent yn casglu arian at yr Uned Cancr sydd i'w hadeiladu yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchiadau iddynt am orffen y daith mewn amser da; a chofiwch, nid yw'n rhy hwyr i gyfrannu at eu hapêl.

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

CHWILOTA

GWERTHU'R FACHWEN



Ddau rifyn yn ôl soniais am 'Ffordd Wil Rhos', sef y lôn o Ben-llyn i'r Fachwen. Bellach, gwn fod y ffordd yn dyddio o 1824, ond nid wyf ddim nes i'r lan ynglŷn â'r enw arni. Mae'n ymddangos mai dau dirfeddiannwr pwysig oedd yn yr ardal yn union ar ôl y Deddfau Cau'r Tiroedd Comin — Thomas Assheton Smith o'r Faenol, a'r Arglwydd Newborough o Glynllifon. Teulu'r Faenol oedd yn berchnogion y rhan helaethaf o blwyf Llanddeiniolen, ond Arglwydd Newborough oedd biau Fferm Fachwen a'r tiroedd o'i hamgylch i lawr hyd lannau Llyn Padarn.

Roedd cloddio am lechi eisoes yn bod ar lethrau'r Elidir, ac Assheton Smith wedi manteisio ar ei hawliau i'r tir. Ond roedd peth cloddio yn digwydd hefyd ar dir y Fachwen. Yn y ddeunawfed ganrif sonnir am bobl Cwm-y-glo yn cloddio oddi ar y llethrau ac yn cario llechi yn ôl i'r Cwm er mwyn trin y crawiau yn ystod y gaeaf. Dywedodd Eirwyn Williams, Llwyncoed fod llythyr ar gael oddi wrth Peter Bailey Williams i'r Arglwydd Newborough yn gofyn am hal i un o'i hynafiaid — y Michaeliaid — gael cloddio ar ei dir am lechi. Yn anffodus, er i mi chwiloa drwy gyfrolau o fynegion papurau Glynllifon, methais â darganfod copi o'r llythyr hwnnw.

Erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf roedd tunelli o lechi yn cael eu cario allan o'r chwarel ond roedd tir Arglwydd Newborough yn y Fachwen yn creu trafferth i deulu'r Faenol. Gan fod tiroedd y Fachwen yn cyrraedd hyd Ddinorwig, doedd dim modd i'r Faenol gario eu llechi allan o'r chwarel yn hwylus. Roedd ganddynt rheilffordd geffylau (tram) o'r Allt Ddu ar hyd y terfyn â thir y Fachwen hyd at ben Gallt-y-foel ac yna inclens i lawr i Glwt-y-bont ac ymlaen i'r Felinheli. Ond roedd cario llechi allan o rannau isaf y chwarel yn broblem gan mai Arglwydd Newborough oedd perchennog glannau Llyn Padarn.

Ond doedd yr Arglwydd Newborough ddim heb ei broblemau chwaith. Roedd ei dir yn y Fachwen wedi ei ynysu oddi mewn i diroedd y Faenol ac yr oedd cario llechi allan o'r Chwarel Goch (ar dir y Fachwen) yn creu trafferthion. Felly, erbyn 1824 daeth y ddau dirfeddiannwr i gytundeb.

Roedd Assheton Smith angen tir ychwanegol i gynnal ei rheilffordd geffylau o Ddinorwig i ben Gallt-y-foel, tra roedd Arglwydd Newborough angen tir i adeiladu ffordd o'r Fachwen i Ben-llyn. Cytunodd y ddau i gyfnewid tir am y swm o ddeg swllt yn unig! Cafodd Assheton Smith dair acer o dir yn ardal Dinorwig — yn rhymyn gweddol gul ble mae'r lôn bresennol, a chafodd Newborough ddwy acer o dir lle mae ffordd bresennol y Fachwen — bron i filltir o hyd ond yn ddim ond wyth llath o led! Hon felly oedd 'Ffordd Wil Rhos'.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod llythyr ar gael sy'n sôn am ffordd arall tua'r un cyfnod. Ysgrifennwyd y llythyr gan Owen Parry o chwarel y Cilwgyn at William Glynne Griffith, Bodegroes. Yn y llythyr dywed, '... fod John y Gof am wneud ffordd troliau o'r Fachwen i dir y Glyn trwy Llyn Llanberis, ond ni fuasa'n para am hir. Mae tir Fachwen yn well ar gyfer chwarelu

na thir y Glyn.' Pwy tybed oedd John y Gof?

Yn ystod y blynyddoedd dilynol datblygodd Chwarel Dinorwig yn gyflym nes gorfodi Assheton Smith i feddwl o ddifrif ynglŷn â sut i gario'r llechi allan o rannau isaf y chwarel. Os oedd am adeiladu rheilffordd yna roedd angen caniatâ Arglwydd Newborough i groesi tiroedd y Fachwen ar lannau Llyn Padarn, neu roedd angen prynu'r tir. Roedd hefyd yn bwysig i Assheton Smith gael meddiant o diroedd y Fachwen ym mharthau'r Allt Ddu, Dinorwig gan fod angen tir yno i wared gwastraff llechi a chreu tomenni. Roedd cynlluniau ganddo hefyd i rannu tir fferm y Fachwen yn fân-ddaliadau a'u gosod i'w chwarelwyr.

Roedd yr hen Arglwydd Newborough, a gytunodd yn 1824 i gyfnewid tir, wedi marw ac erbyn 1840 Spencer Bulkeley oedd yn Arglwydd Newborough. Mae traddodiad yn adrodd iddo fod mewn tŷ betio yn Llundain yng nghwmni Assheton Smith ac iddo golli tir y Fachwen wrth gamblo. Dichon nad oes gwirionedd i'r stori oherwydd mae dogfen ar gael wedi'i ddyddio ddiwedd Mehefin 1840 yn tystio i dir y Fachwen (dros 300 acer) gael ei werthu i'r Faenol am swm o £13,500. Roedd rhen y Fachwen ar y pryd yn werth £188 y flwyddyn. Gwariodd y Faenol £1,573 ychwanegol ar y tir — a'i rannu'n dyddynnod. Hanner can mlynedd dyn ddiweddarach roeddent yn derbyn £262 mewn rhent oddi ar y chwarelwyr oedd wedi ymgartrefu ar diroedd y Fachwen.

Mae map ar gael yn un o lyfrau Arolwg Stad y Faenol yn dangos tiroedd y Fachwen wedi ei rannu'n fân-ddaliadau. Mae'r map wedi'i gynnwys ynghyd ag Arolwg 1832, ond nid yw'n bosibl dyddio o'r flwyddyn honno gan mai ym mherchnogaeth Newborough roedd y tir bryd hynny. Gan fod Rheilffordd Padarn yn cael ei dangos ar y map, mae'n amlwg fod yr Arolwg o diroedd y

Fachwen yn dyddio i gyfnod ar ôl 1845-60, pan gwblhawyd y rheilffordd.

Yn y Map Arolwg cynhwysir yr enw 'Cae Coch'. Mae'r ffordd o Ben-llyn yn torri ar draws Cae Coch Uchaf, sy'n 39 acer o faint, nes cyrraedd y Chwarel Goch. Rhwng Cae Coch Uchaf a'r llyn mae Cae Coch Isaf, sy'n 24 acer o faint. Dyma o bosibl y 'caeau cochion' a roes eu henw i'r capel cyntaf.

Cefais ar ddeall hefyd fod carreg o gapel gwreiddiol y Fachwen, gyda'r enw 'Caeau Cochio'n arni, yn rhan o gwt glo ym mhentref Brynrefail! Er i mi ymweld â'r tŷ droeon yn ystod y mis aeth heibio, methais â chael ateb. Cysylltwch ar unwaith os ydi'r garreg (neu'r cwt glo) yn dal yno.

Bydd mwy o hanes pryniant y Fachwen yn y rhifyn nesaf gan gynnwys trafferthion Evan Williams, Tai Isa, Pentir a honnai iddo golli ei diroedd yn ystod y gwerthiant.

GWEITHWYR CROSVILLE CAERNARFON

Anfonwd y llun (a welir gyferbyn) gan Mr Owen Jones, Ffordd Bethel, Caernarfon, ond gynt o Ddinorwig. Mae'n gallu enwi pob un o'r wyth deg a chwech o weithwyr sydd yn y llun, gan gynnwys nifer o fro'r Eco, yn enwedig o Lanrug. Ar y pryd roedd Owen Jones yn fecanic ifanc gyda'r cwmni. Tynnwys y llun ar ddydd Sul ym mis Mai, pan oedd y gweithwyr i gyd ond tri ar ddeg yn bresennol! Sylwch ar yr iwnifform a'r capiau gwahanol yn dynodi p'run a'i dreifar, conductor neu inspector oedd y perchennog.

Mwynhewch y gwyliau, ond cysylltwch ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol erbyn diwedd Awst. Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Bant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

AR WERTH

FFRÂM ADDAS I GARIO BEICS
AR GEFN CAR. PRIS I'W DRAFOD
(01286) 673515

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Gweithwyr Crosville Caernarfon yn 1934



(T) = Tocynnwr (G) = Gyrrwr (A) = Arolygwr (C) = Clerc
(P) = Peiriannwr

LLINELL FLAEN (o'r chwith i'r dde):

J. G. Jones (John Geraint) (T); J. G. Hughes (G); Ike Davies (T); Glyn Roberts (G); W. W. Thomas (T); Ivor Jones (Clerc Ymholiadau); Elfed Lewis (T); P. G. Humphreys (T); R. H. Griffiths (G); J. O. Jones (G).

AIL RES:

R. W. Jones (T); W. Roberts, Caeathro (T); W. J. Roberts (T ac yna C); George Davies (C); P. M. Hughes (C ac A); Miss B. Metcalfe (Teipydd); Ifor Jones (A); Stanley Hughes (Rheolwr Adran); H. Green (Rheolwr); Miss Dorothy Phillips (Teipydd); W. Borth Jones (A); Hugh Hughes (Rheolwr peirianwyr); T. G. Roberts (T ac A); H. O. Hughes (Rheolwr y garej); D. O. Edwards (Gofalwr y Cantin).

Y DRYDEDD RHES:

Glyn Hughes (G); Owen Hughes (T); R. D. Griffiths (G); H. R. Griffiths (G); A. E. Roberts (G); Peter Edwards (G); M. Casey (G); G. O. Roberts (T); Idwal Phillips, Llanrug (G); Emyr Jones, Llanrug (G); Joe McManus (G); George Williams (T) R. O. Pritchard (G); O. G. Jones, Clwt-y-bont (T); Joseph Hughes, Pantglas (G); Richard Jons, Minffordd, Llanrug (Rheolwr garej); W. Jones (G).

Y BEDWAREDD RHES:

R. Carey (Clerc Ymholiadau); J. Parry, Llanrug (G); W. Limerick (T); G. H. Jones (T); A. V. Norton (G); J. O. Griffiths (G); H. Roddick (T); A. E. Jones (T); Tudur Owen (T); W. Pritchard (G); A. Howel (G); G. S. Jones (G); Albert Parry (T); C. W. Saynor (G); T. E. Jones (G).

Y BUMED RHES:

W. E. Griffith, Llanrug (T); J. Davies (G); O. A. Thomas (G); E. G. Jones, Minffordd, Llanrug (G); R. W. Williams (T); J. P. Jones (G); T. M. Vaughan (G); Hugh Jones (G); T. C. Parry (G); Tecwyn Roberts (T); John Evans, Ty'n Gorlan, Llanrug (T); R. Williams (T); John Jones (G); H. V. Pritchard (G) a briododd â Megan Hughes o Lanrug a buont yn byw ger yr Institiwt; G. T. Evans (T a Glanhawr).

RHES UCHAF:

W. Mercer (Trydanwr); O. H. Williams (Glanhawr); A. Relish (P Teiars); J. W. Jones (Glanhawr a G); W. J. Jones (Rheolwr Peirianwyr Pwllheli); J. H. Jones (P); N. G. Thomas (P); J. B. Jones (P); H. A. Humphreys (P); Owie Jones (P); W. J. Jones (T); R. Griffiths (Glanhawr) wedi iddo briodi, Tan-y-coed, Llanrug; R. O. Jones (G); T. M. Jones (T) a briododd ferch o Lanrug.

EMYR JONES

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thrédio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513**


AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Gŵyl Gorawl Eryri 1998

Eleni cynhaliwyd gŵyl y plant yn Eglwys Santes Fair, Llanfairisgaer lle daeth Ysgolion Sul eglwysi Llanberis, Penisarwaun, Glanadda Bangor, Deiniolen a Llanfairisgaer at ei gilydd mewn cyfarfod llawn moliant. Thema'r ŵyl eleni oedd 'Cymeriadau'r Beibl'. Yr arholwyr eleni oedd Mrs Nancy Jones, Llanberis (ysgrifenedig); Mrs Heulwen Parry, Llanrug (llafar); a Mr Kelvin Fleming, Llithfaen (cyweithiau). Cymerwyd y rhan agoriadol gan blant Ysgol Sul y Santes Fair, Y Felinheli a chroesawyd Mrs Nia Wyn Jones, Llanbedrog i annerch y plant. Yn ystod y pnawn cyflwynwyd plant oedran cynradd yr Ysgolion Sul â thystysgrif ar eu maes llafar. Yn y maes ysgrifenedig cyflwynwyd Laura Mairwen (Bl. 7) o

Llanfairisgaer â thlws a chyflwynwyd Eurig Roberts o Benisarwaun â Thlws Coffa Canon Alun Jones am ei ysgrif 'Fy hoff gymeriad yn y Beibl'.

Roedd cystadleuaeth agored i aelodau yr eglwysi i ysgrifennu a dylunio llyfr ar gyfer plant oedran cynradd ar unrhyw gymeriad o'r Beibl, ac yn llwyddiannus roedd Huw Tegid Roberts o Benisarwaun am ei lyfr am Solomon. Da fyddai gweld y llyfr wedi'i gyhoeddi gan iddo dderbyn canmoliaeth mawr gan yr arholwraig.

Cynhaliwyd gŵyl yr oedolion yn Eglwys Deiniol Sant, Llanddeiniolen, c arweiniwyd y gymanfa gan Mr Cledwyn Jones, Bangor gyda Mr Cyril Williams, Caernarfon ar yr organ. Y côr gwadd oedd Clychau'r Grug.

Tlws yr Eco



Tîm pêl-rwyd Llanrug — enillwyr y gystadleuaeth dan 11 oed.



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU

BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y saith mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy' amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol y'n teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

Stori fuddugol gan EURIG ROBERTS

Mae gan bawb rhyw fath o atgofion o'r ysgol gynradd. Y rhan fwyaf ohonynt yn rhai melys. Rydw i'n cofio un peth pwysig am yr 'hen' ysgol, sef cael gwasanaeth bob bore am naw o'r gloch. Yn y gwasanaeth roeddem yn cael clywed straeon am wahanol gymeriadau yn y Beibl — y llyfr gorau yn y byd. Ond roedd un stori roeddwn i'n hoff o'i chlywed o hyd. Y stori honno oedd am fywyd cythryblus Joseff.

Yn amlwg Joseff oedd ffefryn ei dad, Jacob, er mai nid ef oedd yr ieuengaf o'r deuddeg plentyn — nhw i gyd yn fechgyn. Benjamin oedd enw'r ieuengaf ond bu farw ei fam ef a Joseff ar enedigaeth ei mab olaf.

Roedd y stori'n cychwyn gyda chenfigen. Dyna beth ddangosodd brodyr Joseff tuag ato wrth iddo gael côr amryliw, ddrud gan ei dad. Roedd y gweddill am ei waed — yn llythrennol. Roeddent am ei ladd. Yn lwcus i Joseff fe ddaeth Ruben, y mab hynaf — a'r callaf yn amlwg — heibio ac awgrymu y dylid taflu Joseff i bydew. Efallai fod y sefyllfa'n edrych yn anffodus i ddechrau ond bwriad Ruben oedd dod yn ôl i achub ei frawd.

Pan glywais y stori am y tro cyntaf roeddwn wedi synnu sut y gallai brawd feddwl am ladd brawd arall. Peth cas arall wnaeth y bechgyn wedyn trwy ddweud celwydd wrth eu tad. Fe rwygodd y brodyr y gôt yn ddarnau a'i rhoi mewn gwaed gafr ac yna mynd ymlaen i ddweud fod Joseff wedi'i ladd gan llew mynydd. Yn fy marn i roedd hyn yn gwbl anfaddeuol. Hefyd, tra roedd Joseff yng ngwaelod y pydew fe ddaeth Ismaeliad heibio a phenderfynwyd yn y fan a'r lle y dylai Joseff gael ei werthu. Sut oedd Joseff yn teimlo tybed? Heb gariad, wedi ei fradychu efallai? Dyna'r union beth a ddigwyddodd iddo. Mae'n siŵr fod Jacob yn teimlo fod kannwyll ei lygad wedi mynd allan o'i olwg am byth. Roedd blas chwerw yn fy ngheg wrth i mi glywed yr hanes.

Cafodd Joseff ei dderbyn fel caethwas yn yr Aifft. Roedd gan y bachgen ddawn ryfeddol ond doedd neb yn ei gymryd o ddifri. Neb heblaw Pharo ei hun pan gafodd ef freuddwyd rhyfedd. Fe esboniodd Joseff y freuddwyd ac fe oedd y person a rybuddiodd pobl Israel a'r Aifft fod newyn ar ei ffordd i'r wlad. Roedd hyn yn golygu bod saith mlynedd o baratoi angen ei wneud ar gyfer y saith mlynedd o newyn oedd i ddilyn.

Joseff gafodd y swydd o rannu'r bwyd a phenderfynu pwy oedd — a phwy oedd ddim — yn cael cyfran. Dyma sut y daeth ar draws ei deulu heblaw am Benjamin a'i dad. Yn amlwg nid oedd y deg wedi adnabod Joseff yn ei wisg lân, newydd. Roedd hyd yn oed wedi cael enw arall hefyd. Fe holodd Joseff am y teulu pan ddywedodd un ohonynt fod ei frawd, Joseff, wedi marw erbyn hyn. Dyna beth oeddent yn ei ddychmygu am Joseff erbyn hynny. Gallai Joseff fod wedi eu carcharu i gyd gan ei fod yn bwerus, ond maddau wnaeth iddynt ar ôl popeth. Dyna beth sy'n gwneud person eda. Yn y diwedd fe unodd â'i dad a chafodd Jacob gyfle i weld ei fab unwaith eto.

Wrth gymharu'r stori yma gyda'r un am Iesu Grist rydym yn gweld fod llawer o bethau'n debyg i'w gilydd. Cafodd Joseff ei fradychu gan ei frodyr a'i werthu am 20 darn o arian, tra fod Iesu'n cael ei fradychu gan Jwdas a'i werthu am 30 darn o arian. Nid oedd yr un o 11 o frodyr yn adnabod Joseff yn ei wisg newydd. Doedd neb yn adnabod Iesu chwaith a ddaeth yn ôl i brofi pob un o'i 11 o ddisgyblion yn anghywir. Hefyd rhoddodd Joseff fywyd newydd i'w frodyr gan roi maddeuant i'w pechodau ac aeth Iesu ar y Groes i roi maddeuant i bechodau pobl oedd yn ei gredu. Mae llawer o'r syniadau'n debyg iawn.

Dyma sy'n gwneud Joseff a Iesu yn arwyr yn y Beibl, fel mae Leonardo Di Caprio, Ryan Giggs, Scott Gibbs a llawer o enwau enwog heddiw yn arwyr i lawer o bobl o bob cenhedlaeth.

GWASANAETH TRYDANOL

ERYRI

ELECTRICAL

FRON

DEINIOLEN

- ★ AIL WEIRIO
- ★ CAWODYDD
- ★ GOLEUADAU DIOGELWCH
- ★ LARWM LLADRON
- ★ CYNNAL A CHADW


(01286) 870858

SYMUDOL
0467 774 326

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174

LIBANUS. Cynhelir Cyfarfod Pregethu Libanus, Clwt-y-bont, ddydd Sul, Gorffennaf 12fed am 2 o'r gloch a 5.30 yr hwyr. Y pregethwr gwadd fydd y Parchg Ddr Densil Morgan, Bangor. Croeso cynnes i bawb.

MERCHED Y WAWR. Yng nghyfarfod mis Mai y gangen estynnwyd croeso cynnes i Ms Bethan Jones-Parry, darlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Ei thestun oedd 'Byd Papurau Newydd' a bu'n traethu'n ddifrif iawn am wahanol agweddau ar ei phwnc. Diolchwyd iddi gan Mrs Alice Griffith; gwnaed y baned gan Mrs A. M. Jones, Mrs E. Jones a Mrs G. Williams, ac enillwyd y raffl gan Mrs M. Roberts.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen nos Lun, Mehefin 15. Y swyddogion newydd fydd yn dechrau ar eu gwaith ym mis Medi yw — Llywydd: J. Eirlys Williams; Ysgrifynyddes: Iola Richards; ac mae'r swyddogion eraill wedi cytuno i aros yn eu swyddi, ar wahân i Eirian Jones sy'n cymryd lle Jane Jones fel un o'r trefnwyr teithiau. Mae'n fwrriad gan yr aelodau i fynd am ddrif i Sioe Flodau Southport ddydd Sadwrn, Awst 22. Bydd y bws yn cychwariad ar y ffordd am 9 o'r gloch y bore ac ar y ffordd yn ôl bwriedir aros am bryd o fwyd, gan anelu at gyrraedd adref rhwng 9 a 10 o'r gloch. Croesewir rhai nad ydynt yn aelodau i ymuno â ni. Derbyniwyd yr enwau gan Margaret E. Jones (870685) ac Eirian Jones (871359) ynghyd â £5 o flaendal, os gwelwch yn dda.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Jennie Lyn, Cartref, Rhes Cynfi ar ddod yn drydydd ar yr unawd pres 15-19 oed yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhwlheli yn ddiweddar. Bydd Jennie yn teithio i lawr i'r De ym mis Gorffennaf gan iddi gael ei dewis i chwarae i Fand Pres Cenedlaethol leuenctid Cymru. Mae'n anrhydedd fawr iddi gan ei bod yn gorfod cael gwrandawriad cyn ymuno â'r Band. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc iti yn y De, Jennie.

Y CYNULLIAD. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan nos Lun, Gorffennaf 27ain am 7 o'r gloch. Yno bydd Dafydd Wigley, A.S., darpar ymgeisydd Plaid Cymru ar

gyfer yr etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol i drafod pwysigrwydd y Cynulliad i Gymru.

PLAID CYMRU. Enillwyd y Clwb 100 am fis Ebrill — £10: Mrs Eirlys Gibson, 17 Hafod Olau; £5: Mrs Angharad Roberts, 29 Stryd Newydd. Mis Mai — £10: Mr Timothy Jones, Beran; £5: Mrs L. M. Lewis, Llys Annedd. Mis Mehefin — £10: Mrs Helen Sutherland, Pen-y-bont; £5: Mr John Jones, 14 Corlan y Rhos, Llanrug.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr nos Lun, Mehefin 1af. Adroddwyd fod Mr Jacob James, Regent House a Mr Robert Williams, 4 Tai Caradog am resymau personol, yn dymuno ymddiswyddo. Cofnodwyd diolch a gwerthfawrogiad o'u gwaith dros yr ymddiriedolaeth am 18 mlynedd ers ei sefydlu yn 1980. Croesawyd Mr Glyn Ll. Griffith, 2 Tai Fictoria a Miss Jean Parc Jones, Cesail y Mynydd yn aelodau newydd. Derbyniwyd pump cais am gymorth a dyfarnwyd rhoddion gwerth £2,000 fel a ganlyn — Urdd Sant Ioan: £200; Ysgol Feithrin: £400; Clwb Snwcer: £300; Y Seindorf: £700; Eiisteddfod Gwaun Gynfi: £400.

DYDDIADUR YSGOL GWAUN GYNFI AM DYMOR YR HAF. Croesawyd y dirprwy newydd, Miss S. E. Jones ac mae wedi setlo'n iawn yn ei swydd newydd. Mae plant



Dudley'r Ddraig gyda Kevin Owen enillydd yr Ysgol am enwi draig Cwmni Masnachol Gwynedd.

dosbarth 3 wedi bod yn nofio pob dydd Mercher.

30/4/98: Bl. 5 a 6 wedi ymweld a chymryd rhan yn rhagglenn deledu Uned 5.

6/5/98: ymwelodd y Ddraig Dudley â'r plant amser cinio.

18/5/98: Cafwyd ymweliad gan Grŵp Ystlumod Gwynedd a chafodd y plant gyfle i weld ystlumod byw. 16/6/98: Bl. 5 a 6 wedi ymweld a chymryd rhan yn Uned 5 unwaith eto.

24/6/98: Bl. 3, 4, 5 a 6 wedi gweld perfformiad o 'Clychau'r Môr' yn Theatr Gwynedd.

1/7/98: Plant yr ysgol yn cymryd rhan yng Nghyngerdd Carnifal y pentref.

2/7/98: Bl. 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail a Bl. 0, 1 a 2 yn mynd am drip ar trê'n fach Ffestiniog.

3/7/98: Bl 4 yn ymweld a'r Swyddfa Dywydd yn Y Fali a'r goleudy yng Nghaergybi.

14/7/98: Trip Bl. 3 i Celtica,

Machynlleth; a Bl. 5 yn y Ganolfan Dechnoleg ym Machynlleth.

16/7/98: Yr ysgol yn cau am wyliau'r haf.

2/10/98: Yr ysgol yn ailagor am dymor yr hydref.

DIOLCH. Dymuna Ellis Wyn, 6 Ffordd Deiniol ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch arbennig i'r meddygon a staff Ward Dulas am y gofal diflino a gafodd; hefyd i'r gweinyddesau lleol am y gofal ar ôl dod adref. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Jennie Roberts, 96 Pentre Helen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u hymweliadau ffyddlon â hi tra yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref. Diolch hefyd am y llu cardiau, danteithion a'r galwadau ffôn. Diolch yn arbennig i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ysbyty Gwynedd am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DAMWAIN. Dyna gafodd gŵr hynaws o Rydfadog tra'n cerdded tuag adref heibio Tai'r Faenol. Baglodd dros y palmant a syrthio ar ei hyd ar lawr. Erbyn y bore wedyn roedd ganddo ddau lygaid mawr du ac wedi malu ei drwyn. Sbio i lawr y tro nesaf, ynte. A gobeithio ei fod yn gwella.

DRAENOG

Aeth dau o Ffordd Deiniol, Deiniolen am wyliau mewn carafan. Wedi cyrraedd Capel Curig, Mam yn cofio ei bod hi wedi gadael ei hand-bag adra. Yn ôl i Ddeiniolen â nhw, a gweiddi a thanfro mawr. Duan o HWU, wedi colli hanner awr o gwsg!



Te parti Dudley yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO



J.M.
JONES
A'I FEIBION


GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR
LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Campfa Newydd Deiniolen



Mae campfa newydd wedi'i hagor yn Neiniolen yn ddiweddar ac eisoes mae cryn brysurdeb yno. Mae'r *Workhouse Gym* i'w gweld yn hen adeiladau gweithdy'r saer 'Sling' ar Ffordd Deiniol. Yn wreiddiol, wrth gwrs, capel y Tabernacl oedd yr adeilad. Mae'r campfa newydd yn llenwi'r hen gapel a'r estyniad a osodwyd wrth ei ochr rai blynyddoedd yn ôl. Mae pob math o offer codi pwysau yno, yn ogystal ag offer fel peiriant rhedeg yn yr unfan. Mae yno hefyd sgwâr ymarfer ar gyfer bocsi.

Roedd gan y perchnogion newydd campfa ym Mangor cyn hyn ond wedi deall bod adeiladau helaeth y Tabernacl y wag, penderfynwyd symud yno. Erbyn hyn mae'r adeiladau wedi eu haddasu ac yn ogystal â'r holl offer mae yno ystafelloedd newid

a chawodydd a hyd yn oed sauna. Mae'r campfa'n agored trwy'r dydd a gyda'r nos o ddydd Llun hyd ddydd Gwener a hefyd ar fore Sul.

Mae'r lle eisoes yn brysur. Daw rhai a arferai fynychu'r campfa ym Mangor yno o gyn belled â Sir Fôn, Pen Llŷn a Dyffryn Conwy i ddefnyddio'r offer dan arolygaeth hyfforddwr profiadol. Erbyn hyn mae llawer o bobl leol wedi dechrau defnyddio'r campfa, a hynny'n cynnwys nifer o ieuenctid sy'n cael cyfle i ymarfer codi pwysau am y tro cyntaf.


Dymunwn yn dda i reolwyr y campfa a gobeithiwn weld ambell un o'r ardal yn elwa o'r hyfforddiant ac yn gwneud ei farc o bosibl ym myd codi pwysau. Pwy wyr na ddaw rhyw Ieuan Owen newydd i'r golwg yn y fro yn y dyfodol agos?

Arian dros ben?

Mae Cyngor Eglwys Deiniolen yn apelio am eich arian mân er mwyn cynorthwyo dioddefwyr Sudan. Ond nid eich arian mân arferol chwaith, ond arian tramor. Mae'n debyg y bydd amryw ohonoch yn mynd dramor am wyliau'r haf eleni. Os bydd gennych arian mân dros ben wedi dod adref byddai'r Cyngor Eglwysig yn falch iawn ohono er mwyn ei gyfnewid ar gyfer cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yn Sudan. Mae'r arian mân yn aml iawn yn cael ei adael a'i anghofio wedi i'r gwyliau fynd heibio. Beth am wneud defnydd ohono eleni. Byddai Mrs Eileen Hughes, 7 Tai Fictoria, Deiniolen, trysorydd y Cyngor Eglwysig, yn falch o'i dderbyn gennych.

Carnifal Llanberis

Cynhelir Canrifal Llanberis ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18 ar Ddôl y Goden ac mae'r trefnwyr yn gobeithio am yr un tywydd braf ag a dderbyniwyd y blynyddoedd diwethaf. Bydd wythnos lawn o ddigwyddiadau cyn diwrnod y Carnifal ei hun, yn cychwyn gyda chyngerdd coroni brenhines y Carnifal nos Wener, Gorffennaf 10. Mae'r Carnifal yn un o brif atyniadau'r fro dros dymor yr haf ers blynyddoedd. Mae'r pwyllgor yn pwyso ar gymaint ag sy'n bosibl gymryd rhan yn y cystadlaethau gwisg ffansi er mwyn sicrhau gorymdaith liwgar a hwyliog. Fel y llynedd bydd gwobrau hael i'r enillwyr. Dowch i ymuno yn yr hwyl.



PLAID CYMRU (Cangen Llanrug)

Cynhelir

CYFARFOD BLYNYDDOL Y GANGEN

yn y Sefydliad Coffa
Llanrug

nos Iau, 9 Gorffennaf
am 7.30 o'r gloch

APELIWN AM EICH
CEFNOGAETH

RHAGHYSBYSIAD

Perfformiad o

'BARGEN'

gan

THEATR BARA CAWS

YN NEUADD YSGOL
BRYNREFAIL

NOS FAWRTH
29 MEDI 1998

Trefnir gan Plaid Cymru
Llanrug

DOWCH YN LLU I FWYNHAU



MAE'R GWANWYN YN DOD!

I dorri'ch gwair yn fisol (a'i glirio) cysylltwch â:

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch chyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

PROFEDIGAETH. Ddydd Sadwrn, Mehefin 6ed, brawychwyd y pentref a'r ardal ym marwolaeth sydyn Siân Robinson. Bu farw Siân o drawiad ar y galon a hynny'n hollol annisgwyl. Estynnir pob cydymdeimlad i Wil, Eleri ac Ellen a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

MERCHED Y WAWR. Fel arwydd o'n cydymdeimlad tuag at deulu Mrs Siân Robinson — un a fu'n ffrind hoffus i lawer ohonom yn y gangen — ni aed ymlaen â threfniadau cyfarfod olaf y tymor, sef ymweliad â Bowllo Deg yn Llandudno.

I'r aelodau a fethodd fod yn bresennol yng nghyfarfod mis Mai derbyniwch ddiolch y swyddogion am bopeth yn ystod y tymor diwethaf. Rydym yn edrych ymlaen at y tymor nesaf a fydd yn cychwyn nos Fercher, Medi 9fed yn neuadd yr Ysgol. Bydd y noson yng ngofal pobl ifanc y pentref ac edrychwn ymlaen i groesawu aelodau hen a newydd.

Mae'r gangen wedi derbyn 40 o docynnau i fynd i Stiwdio Barcud i weld recordio'r rhaglen 'Sgrin Ti Syniad', nos Fercher, 15 Gorffennaf. Os ydych angen tocynnau cysylltwch â Margaret Rees neu unrhyw aelod o'r pwyllgor. Mae'r cynnig yma'n agored i unrhyw un yn y pentref.

CYDYMDEIMLO. Ddydd Gwener, 26 Mehefin, bu farw Mr Huw Jones, Sycharth, wedi gwaeldd byr. Roedd Huw yn un o'r pentref ac yn fawr ei gonsyrn am ei ardal ac am warchod y gymdogaeth. Gofalodd am genedlaethau o bobl ifanc yn y neuadd snwcer a chadwodd reolaeth gyda'i ddull arbennig o hiwmor. Cydymdeimlwn a'i weddw Alys, ac â'r meibion Raymond a Colin a'r teulu yn eu profedigaeth.

GWARCHOD CYMDOGOL. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Goffa, 25 Mehefin, yng nghwmni y Swyddog Atal Troseddau, Swyddog Cyngori ynghlŷn â Chyffuriau a heddwas sy'n plismona pentref Bethel. Cafwyd adroddiad gan y Swyddog Atal Troseddau nad oes troseddau difrifol yn y pentref ond ei fod wedi ei synnu mai dim ond un enw oedd ar ei restr fel cysylltydd ar ran y cynllun gwarchod cymdogol o ystyried maint y pentref. Cafwyd cryn drafodaeth ar y modd y mae'r pentref yn cael ei blismona ar hyn o

bryd, sef dau heddwas yn gofalu am Fethel a'r Felinheli. Gofynnwyd ai dim ond ar alwad yr oeddent yn ymweld a'r pentref ond fe'n sicrhawyd y bydd y sustem o blismona yn rheolaidd yn gwella yn y dyfodol agos gyda'r ddau heddwas yn cydweithio i ofalu bod eu presenoldeb yn y pentref yn cynyddu. Amlinellwyd y modd y gweithreda'r heddlu ynglŷn â galwadau brys, a'r modd y dylem ninnau ymateb i wneud y galwadau hynny. O ystyried maint y gynulleidfa yn y cyfarfod roedd yna deimlad nad yw 'pethau fel ag y buon nhw' ac efallai fod pethau'n gwaethygu, ond eto fe'n atgoffwyd fod dulliau plismona ynghyd â'r dechnoleg newydd, ac ati, wedi newid cymaint yn ddiweddar. Gwnaed apêl am rai i ymuno a bod yn gysylltwyr i'r cynllun gwarchod cymdogol gan fod y canllawiau yn argymhell un cysylltydd ar gyfer ugain o dai annedd. Mae oddeutu 300 o dai annedd ym mhentref Bethel (gan gynnwys Saron, wrth gwrs!) ar hyn o bryd ac mae'r pentref yn dal i gynyddu.

TEYRNGED i'r ddiweddar Siân Robinson, Bro Gwynedd gan Richard Ll. Jones. Nid oes neb yn disgwyl clywed am farwolaeth merch fywiog ddeugain oed. Roedd y gair 'bywiog' yn gweddu i'r dim i Siân. Anaml iawn y byddai'n segur. Roedd yn arbennig o fywiog ei chroeso yn ei chartref. Roedd yn wraig ffyddlon i Wil ac yn fam arbennig i Elen ac Eleri. Roedd fel chwaer fawr i'r ddwy ohonynt ac ymfalchïai yn llwyddiant y ddwy. Roedd ganddi feddwl mawr o bobl ifanc ac wrth ei bodd yng nghanol eu miri a'u chwerthin. Roedd y ffaith bod cymaint o bobl ifanc wedi dod i dalu'r gymwynas olaf iddi yn brawf o'u hedmygedd hwythau ohoni hithau. Byddai Siân yn aml yn cyfeirio ati i hun fel 'hogan syml' ond roedd egwyddorion cadarn y tu cefn i'r symylrwydd hwnnw a gwerthoedd fel cyd-fyw, cyd-gynnal a chyfrannu at ei chymdeithas yn golygu llawer iddi. Credai bod gan bawb dalent ac y dylid defnyddio'r amrywiol dalentau er lles y gymdeithas leol.

Ymfalchïai hefyd yn ei chefnidir a'i magwraeth. Cyn i ddyddiau addysg uwchradd Gymraeg wawrio ym Mangor byddai Siân, fel amryw eraill, yn teithio o'r ddinas i Ysgol Dyffryn



Chwaraewyr y flwyddyn timau dartiau Bethel.

CLWB ERYRI

Mwynhaodd cynrychiolaeth dda o'r aelodaeth y wibdaith ar 20 Mehefin. O dan law gadarn a threfnu llwyr John Hugh Hughes ac heb gefnogaeth tywydd teg, caniatodd rhaglen lawn inni ymweld â Plas Mawr, Conwy, Eglwys Sant Crwst, Llanrwst a Pehnmachno'n gyffredinol a Tŷ Mawr, Wybrnant, Cwm Penmachno, yn benodol. Dyma efallai uchafbwynt y daith, sef blasu awyrgylch cartref yr Esgob William Morgan, cyfieithydd yr Ysgrhythur i'r Gymraeg ac achubwyd ein hiaith yn ddiddadl. Diwedydd atebwyd gofynion archwaeth dda yng Ngwesty'r Gwydr, Betws-y-coed a chyrraedd adref mewn da bryd i fwynhau lloffion dydd y bêldroed a'r criced! Cyfunwyd busnes a phleser ar y daith trwy gynnal y cyfarfod trefnu yn

Ogwen i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Clywais nifer o brifathrawon o gylch Conwy yn sôn am y boddhad a gaent o sgwrsio yn Gymraeg yn y Swyddfa gyda Siân. Roedd yn hwyliog ond yn broffesiynol wrth ei gwaith.

Mae'n meddyliau a'n gweddïau fel ardalwyr gyda Wil, Elen, Eleri a'r teulu cyfan. Yn sicr, 'cledd â min yw claddu mam'.

SIÂN

Mewn syndod, gwywodd blodyn — ei difa

Er dwfwn y gwreiddyn.

O ddoe hir, mae i'r ddwy hyn

O hyd, obaith yr hedyn.

gynharach ac ym mysg materion eraill etholwyd Alwyn Evans (Caernarfon) yn llywydd y Clwb am 1998-9, John Emlyn Hughes (Deiniolen) yn is-lywydd; ailetholwyd a ganlyn i'w swyddi hwythau'n unfrydol: R. Gwynn Davies (Bardd y Clwb), Eurwyn Jones (Trysorydd), John Hugh Hughes (Is-ysgrifennydd, cofnodydd a threfnydd y wibdaith) a Iolo Huws-Roberts (Ysgrifennydd). Yn rhinwedd eu swydd, dyma hefyd swyddogion y Clwb ynghyd â'r cyn-lywydd, Cledwyn Pritchard Jones. Cyfeiriwyd yn fyr at anallu'r aelod annwyl, Bobby Williams, i fod yn y gwmniaeth os oedd o'n bresennol yn ddiau yn yr ysbryd. Dymunwyd iddo ef, Geraint Huws Roerts a'r cyn-aelod Emyr Price (a fu hefyd yn fregus eu hiechyd yn ddiweddar), adferiad llwyr a buan i'w llawn nerth. Cydymdeimlwyd hefyd a'r cyn-lywydd ac Arwel Jones a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu cefnder, Selwyn, a arferai fod yn bennaeth adran celfyddyd yn y Coleg Normal. I gloi, teimlwyd yn gyffredinol bod y tymor a fu yn un llwyddiannus a diddorol-amrywiol ei ansawdd a hyderid y bydd a ddaw yn rhannu'r un rhinweddau o'i gychwyn ar nos Wener, Hydref 2, am 7.00 yng Ngwesty'r Victoria.

IOLO HUWS-ROBERTS



ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



WAUNFAWR

BRYN PISTYLL
WAUNFAWR, CAERNARFON

(01286) 650 721

Llun — Sadwrn 10.00 a.m. — 4 p.m.

*Dewch am dro i'n meithrinfa blanhigion, siop garddio,
parc natur, siop grefftau a chaffi.*

Mae gennym barc chwarae newydd sbon i'r plant.

Rydym nawr ar agored bob dydd Sadwrn hefyd.

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Athletau'r Ysgol

Uwaith eto bu cystadlu brwd rhwng y tai ac Elidir ddaeth i'r brig. Dyma'r marciau — Elidir 758, Eryri 662, Eilian 571, Gwyrfa 482.


Cafwyd diwmod bendigedig gyda'r plant a'r athrawon yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Cafwyd perfformiadau arbennig gan Claire Ince (Eryri) ac Eifion Williams (Eilian) Bl.7. Gwenno Thomas (Eryri) ac Owain Morris (Eilian) Bl.8. Diana Roberts (Elidir) a Gavin Roberts (Eilian) Bl.9. Elin Harding (Elidir) a Robin Gardiner (Eilian) Bl.10.

Enillwyd y *Victor Ludorum* gan Jonathan Gordon (Elidir) a'r *Victrix Ludorum* gan Alisa Orlick (Eryri). Llongyfarchiadau i'r ddau.

Ceisiwyd sawl gwaith i dorri record y naid uchel — a osodwyd gan Stan Roberts, Llanberis yn 1959 — ac eleni bu llwyddiant. Fe'i torrwyd gan Gerallt Hughes o Lanrug. Meddai Stan: 'Llongyfarchiadau iddo, roedd hi'n amser i rhywun ei thorri!' Tipyn o gamp. Tybed a welwn ni'r record yn para cyhyd eto?

Torrodd Arfon Jones o Frynrefail dair record: 100m, oedd wedi'i dal ers 1971 gan y rhedwr rhyng-wladol Kevin Davies; 300m, oedd wedi'i dal ers 1995 gan Eifion Jones sydd bellach yn bêldroediwr gyda Lerpwl; a'r naid uchel oedd wedi'i dal ers 1995 gan Gerallt Hughes (a gollodd un ac ennill un arall!).

Nid anghofiwn y genethod gan i Becky Jones o Lanberis dorri record am y 1500m oedd ar y llyfrau ers 1980 gan Melanie Sellers o Lanberis.



Gerallt Hughes



Capteiniaid Elidir — y tî buddugol


Dymuno'n Dda

Dymunwn yn dda i'r holl ddisgyblion a fydd yn ffarwelio â ni ddiwedd y tymor a phob llwyddiant iddynt mewn gwaith a choleg. Gobeithiwn glywed am lwyddiant disgyblion a chyn-ddisgyblion yn eu arholiadau amrywiol yr haf yma.

Mwynhewch wyliau'r haf ac edrychwch ninnau ymlaen yn yr Ysgol i groesawu'r disgyblion newydd fydd yn symud atom o ysgolion cynradd y dalgylch.

NEWYDDION YSGOL

Journée




Ddydd Mercher, 10 Mehefin, aeth 40 o ddisgyblion blwyddyn 7 i Brifysgol Bangor i 'Ddiwmod Ffrangeg' arbennig a drefnwyd gan fyfyrwyr y coleg. Dyma beth oedd gan rai o'r disgyblion i'w ddweud:

'Mwynheais y diwrnod. Trefnodd y myfyrwyr y diwrnod yn dda ac yn drefnus. Y rhan gorau i rai oedd y parti pen-blwydd oherwydd roedd y bywd yn flasus, ond roedd y gêmiau dipyn bach yn fabïaidd!' (Arwel Pritchard).

'Mwynheais y gêm o 'pictionary' a wnaethom ni chwarae yn y parti. Roedd y myfyrwyr yn ffeind ac yn ein helpu ni gyda'r siarad Ffrangeg a dysgu geiriau newydd i ni. Byddant yn gwneud athrawon da.' (Alisa Orlick).

Mae Mathew Barlow ac Adam Gruffudd yn dweud bod y disgo-carioci yn grêt. 'Roedd y myfyrwyr yn helpu llawer ac yn dysgu'r caneuon i ni mewn ffordd hwyliog.



Rhai o'r athletwyr llwyddiannus gyda'r prifathro ac athrawon Ymarfer Corff. Ailsa Orlick y *Victrix Ludorum*, yw'r drydedd o'r chwith a Jonathan Gordon, y *Victor Ludorum* yw pedwerydd o'r dde.

GOL BRYNREFAIL

Francaise!



Roeddent wedi trefnu'r diwrnod yn ardderchog.

Mwynhaodd Sarah Weir y siawns o actio mewn Ffrangeg yn y Café Pierre — 'Roedd y bwyd yno'n ardderchog!' Mwynhaodd ddysgu geiriau Ffrangeg newydd hefyd.

Felly, roedd pawb wedi mwynhau y 'Diwrnod Ffrangeg' ac wedi cael lot fawr o hwyl yno.

TORWYR RECORD



Arfon Jones a Becky Jones

Ennill Bwrsari Nuffield

Llongyfarchiadau i Anest Williams o Fethel, disgybl yn y flwyddyn gyntaf o'r chweched dosbarth am ennill Bwrsari Nuffield, gwerth £300, i ymgymryd â gwaith ymchwil yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r Bwrsari ar gael i bobl ifainc sy'n astudio lefel-A mewn pynciau gwyddonol.

Meddai Anest: 'Golgyga'r Bwrsari bum wythnos o brofiad gwaith yn ystod gwyliau'r haf yn y Sefydliad Ecoleg Tir ym Mangor. Bydd y gwaith yn cynnwys astudiaeth o effaith oson ar blanhigion meillion. Hoffwn ddiolch i Dr Beverley Jones a Miss Ruth Davies am eu cymorth i geisio am y Bwrsari a pharatoi am y cyfweiliad.'

Enillwyr yr Urdd

Llongyfarchiadau i Jennie Lyn Morris, Deiniolen ar ddod yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y gystadleuaeth offrynnau chwyth dan 16 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Bethan Williams (Bl.12) a enillodd y drydedd wobwr yng nghystadleuaeth y gerdd ysgafn:

JOHN WRTH Y LLYW
Un doniol yw John ar wers yrru
Mor dwp mae'n dueddol o ddrysu.
Damweiniau di-baid
Ei fam yn dweud 'PAID!'
Mae'n syndod ei fod yn trafferthu.

Hyderus oedd John ar wers gynta'
Yn mynd fel y boi drwy y pentra'.
Pan darodd y ci
Doedd John ddim mor hy',
Fe redodd fel ffwl yn ôl adra.

Wers nesa' aeth John i Glan'rafon
Fe welodd ei Ffrind Non Gaernarfon.
Pan chwifodd ei law,
Aeth y Metro i'r baw
Ac aeth Non ar ei phen mewn i'r afon!

I Fangor aeth John wythnos wedyn,
Chwara' teg, fe aeth yn reit gyflym.
Pan lithrodd y brêc
Mewn diawl o fistêc
Cynhyrfodd, a methodd ailgychwyn!

Ar ôl saith deg o wersi dreifio
Mi wnaeth yr arholwr ei basio!
O'i weled rhyw bryd
Yn dreifio drwy'r stryd
Plis peidiwch gwneud hwyl am ei ben o!

Chwarelwyr yn Ymweld â'r Adran Gymraeg

Yn ystod y tymor hwn mae plant Bl.7 wedi bod yn dilyn thema 'Byd y Chwarel' yn y gwersi Cymraeg. Fel rhan o waith y thema gwahoddwyd tri chwarelwr i'r ysgol i sgwrsio am eu gwaith yn y Chwarel. Daeth Mr Hugh Richard Jones o Lanberis i sgwrsio â dosbarthiadau 7I a 7O brynhawn Llun, 22 Mehefin; a Mr Alun Wyn o Ddeiniolen a Mr Llywelyn Jones o Lanrug i sgwrsio â dosbarthiadau 7S a 7E fore Mercher, 23 Mehefin. Gwrandawodd y plant ar eu hanesion difyr a'u disgrifiadau o fywyd a gwaith y Chwarel. Yna cawsant gyfle i holi ar ddiwedd y sgwrs ac roedd yn amlwg eu bod wedi mwynhau'r profiad yn arw. Diolch o galon i'r tri, a gobeithio y byddant yn fodlon dod i'r ysgol eto i'n diddori.

Yn dilyn ymweliad y chwarelwyr, ddydd Gwener, 26 Mehefin, cafodd disgyblion Bl.7 gyfle i ymweld â Chwarel Dinorwig am y dydd fel rhan o'r cynllun gwaith Cymraeg. Er gwaetha'r tywydd gwlyb mwynhaodd pawb y gweithgareddau yn chwilio am wybodaeth o gwmpas yr Amgueddfa Lechi ac yn cerdded y Llwybr Main i ben Chwarel Vivian ac yna draw at Ysbyty'r Chwarel.

Llwyddiant Cerddorol



Dechreuodd fy niddordeb mewn cerddoriaeth pan oeddwn yn ifanc iawn ac yn byw ym Mhwlheli.

Bûm yn ffodus iawn o gael Mrs Nan Ellis sy'n chwarae'r delyn yn byw un ochr, ac Anti Annie yr ochr arall sy'n chwarae'r piano. Roeddwn i'n dianc bob hyn a hyn drwy'r twll yn y clawdd i gael chwarae'r offerynnau!

Ar ôl symud i Lanrug dechreuais gael gwersi telyn a phiano, ac yn dilyn hyn sefyll arholiadau. Wythnos cyn sefyll fy ngradd un telyn torrais fy mys ar lethr sgio Llangrannog ac mi

fethais yr arholiad! Ers hynny byddaf yn cadw'n glir o lethrau sgio amser arholiadau! Bûm yn ffodus o basio gradd 2 a 3 hefo anrhydedd, a gradd 1 a 3 piano hefo anrhydedd a gradd 2 hefo merit.

Am y trydydd tro cefais wahoddiad i Gyngerdd y Goreuon yn Neuadd PJ, Bangor i chwarae'r offrynnau. Mae hyn cael ei drefnu gan yr Associated Board of the Royal Schools of Music. Rhaid dweud fy mod wedi gwerthfawrogi'r profiad yn fawr iawn.

SIGNED WYN JONES



Mr Llywelyn Jones



Mr Alun Wyn Evans



Mr Hugh R. Jones

Rhagor o Lythyrau . . .

Dathlu'r Haf ym Mhenisa'rwaun

Annwyl Gyfeillion,

Yn ystod wythnos olaf mis Awst bwriedir cynnal gweithgareddau amrywiol ym Mhenisa'rwaun gyda Carnifal ar y dydd Sadwrn.

Dydd Iau, 27 Awst bydd Gŵyl Flodau yn Eglwys Santes Helen ac fel rhan o'r Wyl Flodau ein bwriad yw casglu nifer o eitemau fel lluniau, hen lyfrau neu bamffledi sydd â chysylltiad a phentref Penisa'rwaun. Bwriadwn greu arddangosfa yn yr Eglwys i ddangos ychydig o hanes y pentref wrth iddo ddatblygu.

Po fwyaf o eitemau a gawn i lunio'r arddangosfa y mwyaf llwyddiannus fydd hi, a dyna pam yr ydym yn apelio atoch, ddarllenwyr yr *Eco* i ofyn os oes gennych unrhyw atgofion neu bethau cofiadwy sy'n gysylltiedig â'r pentref o'r oes a fu ac y byddech yn fodlon i ni gael golwg arnynt neu hyd yn oed eu benthg yn ystod wythnos y Carnifal i'n

cynorthwyo i greu arddangosfa gwerth chweil.

Croesawn unrhyw gyfraniadau, boed fach neu fawr, yn hynafol neu yn weddol ddiweddar, a fyddai'n adlewyrchu rhyw wedd ar y pentref yn ystod cyfnod arbennig yn ei hanes.

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am yr arddangosfa arfaethedig gallwch gysylltu â Mrs Roberta Ingman Griffith, Galahad, Penisa'rwaun, neu Huw Tegid Roberts, Arwel, Llanrug. Mae modd cysylltu â Huw ar (01286) 870 760.

Edrychwn ymlaen yn hyderus am eich ymateb.

Yr eiddoch yn gywir,

ROBERTA INGMAN GRIFFITH
HUW TEGID ROBERTS

ar ran Pwyllgor Gweithgareddau
diwedd Awst 1998 ym
Mhenisa'rwaun

Amgueddfa Gymuned i'r Waunfawr

Annwyl Olygydd,

Pan sefydlwyd Antur Waunfawr yn 1984 nod hyrwyddwyr y fenter oedd rhoi cyfle i bobl â nam meddwl i wasanaethu'r gymdeithas.

Llwyddodd yr ymdrech ac fe adeiladwyd hen dai ac ailagorwyd Siop Bryn Pistyll; sefydlwyd gweithgor sy'n gofalu am erddi a gwneud gwaith cynnal a chadw yn y pentref a thros gylch eang o Wynedd; sefydlwyd gwasanaeth ailgylchu papur a metelau; sefydlwyd Parc Natur gyda llynnoedd a llwybrau yn gyrchfan i'r cyhoedd; bellach mae gardd farchnad yn cael ei sefydlu — gweithgareddau sydd wedi cyfoethogi bywyd y cylch.

Ar hyn o bryd mae gwaith ar dro i addasu hen Dŷ Capel y Waun yn Ganolfan Adnoddau a Hysbysrwydd a Labordy Maes ar gyfer ysgolion fydd yn mynychu'r Parc Natur.

Yn y Tŷ Capel, ar ei newydd wedd, fe sefydlir Amgueddfa i warchod hanes cyfoethog yr ardal. Er bydd pwyslais arbennig yn yr Amgueddfa ar hanes John Evans a aeth i'r America i chwilio am yr 'Indiaid Cymreig'; hanes gorsaf radio Marconi a sefydlwyd yn y Waun ac oedd yr orsaf fwyaf yn y wlad am gyfnod; byddwn hefyd yn casglu dogfennau yn ymwneud â Waunfawr ar gyfer eu trysori a'u harddangos yn yr Amgueddfa.

Yn yr Amgueddfa bwriedir trysori copiau o lyfrau a gyhoeddwyd gan bobl yr ardal ac apeliwn at awduron, ac eraill, all fod â llyfrau yn eu meddiant, i gysylltu â ni er mwyn i ni allu sefydlu llyfrgell gynhwysfawr. Byddem yn falch iawn o glywed oddi wrth ddarllenwyr sydd â dogfennau yn ymwneud â Waunfawr yn eu

meddiant — lluniau, llythyrau, llyfrau ac unrhyw ddeunydd tebyg all fod o ddiddordeb.

Bwriadwn gofrestru yn swyddogol fel Amgueddfa a gallwn sicrhau pawb sy'n barod i roi dogfennau i'n meddiant y bydd y gofal mwyaf yn cael ei roi iddynt. Yng nghyflawnder amser byddwn yn helaethu yr Amgueddfa fel ag i'n galluogi i arddangos celfi ac eitemau yn ymwneud ag amaethyddiaeth a chwarelyddiaeth yr ardal.

Hysbyswyd ni gan Sefydliad Cenedlaethol Cymru-America fod cofeb i John Evans i'w osod yn North Dakota a chawsom gais i gydweithredu â'r sefydliad.

Bwriadwn ddadorchuddio cofeb i John Evans yng ngardd Tŷ Capel yn ystod Awst 1999, pan ailagorir y Tŷ Capel.

Gwariodd Antur Waunfawr yn agos i £100,000 ar brynu ac addasu'r Tŷ Capel yn llawn hyder bydd y gwariant yn rhoi gwell cyfle i'n gweithwyr ddatblygu ac ar yr un pryd yn gaffaeliad i'r pentref a'r cylch. Bydd rhaid wrth rhagor o arian i sicrhau bydd yr Amgueddfa a'r gofeb i John Evans yn cael eu cwblhau yn deilwng.

Byddwn yn ceisio cael grantiau tuag at y gost ond hefyd yn y cyfnod cyffrous yma yn hanes Antur Waunfawr, a'r datblygiadau sydd ar y gorwel, hyderwn bydd aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â ni ac yn gallu uniaethu eu hunain yn ariannol â'r datblygiadau.

Yn gywir iawn,

R. GWYNN DAVIES
Cadeirydd Antur Waunfawr

Gwobr Flynyddol i Gofio Dafydd Orwig

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae'n bleser gennym gyhoeddi fod cyfanswm y Gronfa Goffa wedi cyrraedd £7000 erbyn hyn. Carem ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mor hael i'r gronfa hyd yma, ac ar yr un pryd atgoffa cyfeillion eraill fod cyfle iddynt anfon rhoddion am rai wythnosau eto.

Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor Cronfa Goffa Dafydd Orwig a gynhaliwyd yn ddiweddar penderfynwyd y dylid sefydlu Ysgoloriaeth er cof am y diweddar Dafydd Orwig. Y bwriad yw rhoddi gwobr flynyddol i ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen i ddilyn cwrs addysg bellach yn un o golegau Prifysgol Cymru, a hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Teimlad unfrydol aelodau'r pwyllgor oedd y byddai'r amodau uchod yn cydnabod cariad Dafydd at y pethau y gweithiodd mor galed drostynt gydol ei oes, sef ei fro, ei wlad a'i iaith.

Hyn felly fydd prif ffurf y

coffhad i Dafydd Orwig, ond ym marn y pwyllgor byddai'n ddymunol hefyd pe gallem drefnu coffhad gweledol iddo, e.e. plac neu gerflun, a.y.y.b. Byddai hyn, wrth gwrs, yn dibynnu ar gyfanswm terfynol y Gronfa Goffa.

Os ydych heb gyfrannu hyd yma ac yn dymuno gwneud hynny gallwch anfon eich rhodd i Alun Ogwen Jones, Trysorydd Cronfa Goffa Dafydd Orwig, Tegfan, Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DR.

Mae pob croeso i chwi gyfeirio unrhyw ykmholiad ataf fi, neu at un o gyd-ysgrifenyddion y pwyllgor, sef Mrs C. M. Jeffries, 1 Tan-y-bryn, Tre-garth, Bangor, Gwynedd LL57 4PY (01248) 600754, neu Mrs Rhiannon Rowlands, Llwydiarth, Tal-y-cae, Tre-garth, Bangor (01248) 601094.

Yn gywir iawn,

NEVILLE HUGHES
(Cadeirydd)

Telecabana yn ymweld ag Antur Waunfawr



Bydd pobl yn heidio draw i Antur Waunfawr rhwng 19 Mehefin a 3 Gorffennaf i gael siawns i ymarfer eu sgiliau cyfrifiadurol pan ddaw Telecabana yno ar ymweliad.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt ddisgwyl eu tro gan fod pob un o weithwyr yr Antur yn edrych ymlaen am sesiwn hyfforddiant Telecabana.

Yn ogystal mae nifer o fudiadau lleol wedi llogi sesiynnau hyfforddi. Mae Ysgol Waunfawr wedi rhoi enw'r ysgol

i lawr am nifer o sesiynnau er mwyn i gymaint â phosib o'r plant gael cymryd rhan. Mae'r Brownie, WI, Clwb Bowls Waunfawr a'r NSPCC wedi trefnu ymweliad ond mae un neu ddau o sesiynnau ar ôl os ydych am gael blas ar y cyfrifiaduron.

Mae hyfforddiant ar gael am £1 yr awr i bobl leol, dechreuwyd a rhai mwy profiadol sydd efallai eisiau tro ar y rhyngwyd.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Heulwen Huws neu Menna Jones (01286) 650 721.



ELLIS WYN
SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .

- Rŵan wedi ailagor yn YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON
- Hefyd yn galw yn eich cartref
- Ffoniwch am apwyntiad

678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

NEWYDDION O'R YSGOL. Yn ystod y mis diwethaf bu plant Bl. 5 a 6 yn dilyn cwrs Beicio Diogel gyda Miss Paula Roberts o Adran Diogelwch y Ffyrdd. Buont i gyd yn llwyddiannus a byddant yn derbyn eu tystysgrifau yn ein cyfarfod diwedd y tymor. Diolch yn fawr Miss Roberts am eu dysgu.

Bu Mrs Nesta Griffith o CWYSI atom hefyd yn cyflwyno pecyn addysgol ar ffermio. Treuliodd grŵp o blant gyfnod gyda hi yn ymgyfarwyddo â'r gêm oedd yn ymwneud â bywyd ar y fferm.

Braf iawn yw cael croesawu bachgen bach newydd i'r ysgol. Mae Jack Watson wedi ymgartrefu'n braf yn y Dosbarth Derbyn ac mae eisoes wedi gwneud nifer o ffrindiau newydd.

Fel rhan o'u thema ar y Ffilltir Sgwâr, treuliodd plant Bl. 5 a 6 fore hynod o ddifyr yn y Mynydd Gwefru yn Llanberis. Rhyfeddwyd at y dechnoleg anhygoel o dan yr hen chwarel lechi yno. Diolch yn arbennig i Mrs Dorothy Lamb am drefnu'r ymweliad; i Ann am ddreio'r bws mini ac i Gaynor am egluro'r cyfan i ni mor ddiddorol a chyfeillgar.

Aeth dau dîm o'r pentref i gefnogi cystadleuaeth Tlws Eco'r Wyddfa yn Llanrug. Llongyfarchiadau i genod y pêl-rwyd ac i hogiau'r pêl-droed ar eu perfformiadau. Diolch unwaith eto i Mr Richard Lloyd Jones am drefnu'r noson hwyliog a heulog eleni. Diolch arbennig hefyd i Mrs Judith Pritchard a Mr Melfyn Roberts am ofalu am y ddau dîm.

Carem ddiolch yn fawr i Mrs Julie Cummings am ei rhodd o fwrdd a rhwyd ymarfer pêl-rwyd i'r ysgol. Mae yn ei le bellach ac mae cryn brysurdeb o'i gwmpas.

Cynhaliwyd y Gala Nofio flynyddol yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon. Er na ddaethant i'r brig, rydym yn falch iawn o ymdrechion Ceri Angharad, Clair, Katrina, Sarah, Katie, Mathew, Josh, Brendan ac Andrew. Diolch i chwi hefyd mam Clair a Katie am helpu gyda'r cludiant.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis mai oedd Mrs Eiriona Williams o Benisarwaun a Mrs Glenys Pritchard o Gwm-y-glo. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.



Y GAMPFA CANOLFAN IECHYD A FFITRWYDD

(Perchennog: D. M. A. Lee)

DEINIOLEN

Ffôn:

(01286)

872 240

LLONGYFARCHIADAU i Glyn, Tan-y-graig ar achlysur dathlu ei benblwydd yn 18 oed.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mr Sam Jones, Bron Eryri; Mr Dafydd Price, Tan-y-graig; Mr Len Parry, Hebron; Mrs Enid Price, Stryd Newydd; a Mr Len Jones, Fron Gader.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Ruth Jones, Llys Arfon, Llanrug (24 Dôl Afon gynt) wedi gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DYMUNIADAU GORAU i blant y pentref a fu'n sefyll arholiadau y tymor hwn. Dymunwn iddynt hefyd pob llwyddiant i'r dyfodol mewn colegau ac mewn swyddi.

DIOLCH. Dymuna Ruth Jones, Llys Arfon, Llanrug ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd, ymweliadau a'r galwadau ffôn tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn.




Bydd darllenwyr yr Eco ac ardalwyr Cwm-y-glo a bro'r chwarel yn drist o glywed am farwolaeth Stanley Griffiths, yn 79 mlwydd oed, mewn ysbyty yn Harrogate. Er iddo fyw dros Glawdd Offa am flynyddoedd lawer gyda'i deulu, Jean ei wraig, a'i blant Sonia, Michael, Gavin a Christopher, yma yn ei filltir sgwâr yr oedd ei galon. Byddai'n edrych ymlaen at ei ymweliadau cyson â'r ardal ac yn mwynhau gweld ei gyfeillion a chael sgwrsio am y dyddiau dedwydd gynt. Fel chwarelwr y parhaodd i feddwl amdano'i hun er iddo gyflawni swyddi amrywiol yn Harrogate. Bu am gyfnod yn gynghorydd lleol yn y dref honno hefyd. Roedd yn Gymro i'r carn ac yn caru Cymru a'i thraddodiadau a'i diwylliant yn angerddol. Dros y blynyddoedd cyhoeddodd yr Eco aml lythyr o'i eiddo a'r rheiny fel arfer wedi eu hysgrifennu yn dilyn ymweliad â'i hen ardal ac yn cyfeirio at rai o'r newidiadau y sylwodd arnynt yn y fro. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu colled a chofiw'n am ambell sgwrs ddifyr a gafwyd ag ef dros y ffôn y blynyddoedd diwethaf yma. (GOL.)

Newid Enw . . . Newid Polisi Iaith



ELECTRIC MOUNTAIN MYNYDD GWEFRU



Nid syndod oedd darganfod unwaith eto fod Oriel Eryri wedi cael enw newydd. Er y cychwyn cythryblus yn nechrau'r wythdegau newidiwyd enw'r adeilad sawl tro, ond yr enw diweddaraf sydd i'w wobrwyo am fod yr un mwyaf hurt hyd yma, sef **MYNYDD GWEFRU!** Nid yw'r enw diweddaraf yn cyfieithu yn llythrennol gan mai **ELECTRIC MOUNTAIN** yw'r fersiwn Saesneg.


Er yr holl newidiadau dros y blynyddoedd fe lynwyd yn glôs wrth bolisi iaith gyda'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser — hyd yma! Ie wir, daeth newid arall mwy syfrdanol y tro hwn gyda'r Saesneg yn cael blaenoriaeth drwy'r adeilad. Gosodwyd arwyddion llachar yn ystod y mis gyda lliw sydd ddim

yn gweddu o gwbl i bentref sydd â rhan o'i ffiniau oddi mewn i'r Parc Cenedlaethol.

Fel y cofia rhai o'n darllenwyr hyn i'r fenter o godi'r Oriel gael ei hariannu gan y CEBG a'r Swyddfa Gymreig fel arwydd o ewyllys da i drigolion y fro am yr anawsterau a ddaeth i'n ffordd wrth godi Gorsaf Bwr Dinorwig. Trueni fod yr Amgueddfa Gymreig, o dan arweiniad Mr Colin Ford, wedi gwerthu ein Oriel i gwmni preifat.

Hoffa'r Eco longyfarch Banc Barclays am osod peiriant Twll yn y Wal y tu allan i'r Oriel gyda'r Gymraeg yn cael y flaenoriaeth!

Nid oedd neb ar gael i ymateb i'r cwestiynau pan gysylltodd yr Eco â'r cwmni.



Dydau ni, ddraenogod, fawr o sgotwrs, ond tasa chi'n rhoi sgodyn a chwdan o 'mlaen i mi fedrwn i ddeud prun ydi prun. Nid felly pob sgotwr profiadol mae'n amlwg. Glywsoch chi am y creadur fu'n dysgu un o'i wyrion i sgota ar Llyn Padarn? 'Fel hyn mae gneud, 'ngwas i.' A dyna fo'n bwrw'r lein i'r dŵr . . . a chael bachiad ar unwaith. Ond sylweddolodd yn fuan mai chwdan oedd wedi lloccio'r bara a'r bachyn. Gyda llaw, doedd y chwdan fawr gwaeth a llwyddwyd i'w rhyddhau heb niwed o gwbl . . . ond nid felly'r sgotwr gan fod ei falchder a'i enw da wedi ei glwyfo'n arw!

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaedddech mewn steil — mewn cerbyd **Rolls Royce** ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



Tîm pêl-droed dan 11 Llanberis oedd yn ail yn Nhlws yr Eco.

GRŴP SGOWTIAID. Dymuna Andrea Roberts, Bryn Derwen, 17 Ffordd Cwstenin, Caernarfon glywed oddi wrth unrhyw berson a fyddai â diddordeb i'w chefnogi i aildddechrau grŵp Sgowtiaid yn Llanberis, a chychwyn grŵp newydd yn Llanrug. Byddai'r plant a phobl ifainc rhwng chwech ac ugain oed. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Andrea Roberts ar (01286) 678856. **LLEISIAU LLIWEDD.** Bu'n fis prysur i'r parti. Pnawn lau, Mai 21, yng Nghlwb Henoed Arfon, Caernarfon; yna pnawn Sul, Mai 24 yn cynnal gwasanaeth yng nghapel M.C. Dinorwig; a phnawn Mercher, Mehefin 3 yng Nghanolfan Dydd Maesincla, Caernarfon.

PENWYTHNOS YN BLACKPOOL. Mae Lleisiau Lliwedd yn trefnu penwythnos yng ngwesty Tony ac Aloma yn Blackpool, o 2-5 Hydref. Os oes rhywun am ymuno â hwy cysylltwch am fwy o fanylion ar (01286) 674530 neu 871758.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y cyfarfod misol ddydd Mawrth, Mehefin 2, yn y Rheithordy. Mrs Nan Owen gymerodd y rhan ddefosiynol. Croesawyd atom y mis hwn aelodau o Gwm-y-glo a Llanrug. Ein gŵr gwadd oedd Mr Ralph Jones, Taliesin, a mwynhawyd yn fawr ei sylwebaeth a sleidiau am ddechreuad trê yn Wyddfa. Diddorol iawn, Ralph. Datganodd Mrs

Dorothy Jones o Gwm-y-glo y diolch. Enillydd y raffl oedd Mrs Menna Roberts o Lanrug.

PLAS PENGWAITH. Adref o'r ysbyty mae Mrs Mari Pritchard, sef Anti Mari i bawb sy'n ei hadnabod. Hefyd wedi dod adref ar ôl bod yn yr ysbyty mae Mr J. Munro. Dymunwn wellhad i'r ddau a chroeso'n ôl.

Dal i fod yn yr ysbyty mae Mrs Catherine Hughes a Mrs Florence Ellis. Brysiwch wella. Mae pawb yn dymuno gwellhad buan i'r ddwy ohonoch.

Roedd Mrs A. Owen, Mrs M. Williams a Mrs E. Williams yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Mehefin.

Mae Mr J. Williams, Llanberis; Mrs E. Liggins, Y Felinheli; Mrs R. Owen a Mrs A. Owen, Bangor wedi dod i aros atom. Croeso iddynt.

Ddydd Gwener, Mehefin 5, daeth Ms Haf Morris atom i roi adloniant yn y Lolfa. Mrs C. Williams oedd yn ei chyflwyno a diolch i Haf am roi o'i hamser. Roedd pawb wedi mwynhau y prynhawn. Diolch yn fawr Haf.

Bu'r bws mini yma am wythnos ond dim ond ambell ddiwrnod allan a gafwyd gan fod y tywydd yn arw. **CAPEL COCH.** Bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd i Camelot — y parc thema ger Preston ac nid y Loteri! — ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4. Bydd y bws yn cychwyn o Nant Peris am 7.55 o'r gloch y bore.

Diolch i'r aelodau fu wrthi'n brys yn tacluso'r tir o flaen y capel, ac yn paentio cyntedd y capel yn ddiweddar.

CYMANFA GANU. Cynhelir Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yn Capel Coch, nos Sul, Gorffennaf 5, am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

JERUSALEM. Cafwyd cyfarfod o'r Gyfeillach ar Fehefin 2, o dan lywyddiaeth Hugh R. Jones, ac fe ddymunodd wellhad buan i rai o'r aelodau oedd yn absennol. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan y Parchg Hugh Gwynfa Roberts, gyda Mair ei wraig yn gwmni iddo, am ei hanes cynnar ym Mhonrhythallt a'r dylanwad a gafodd ei ffrindiau a chymeriadau'r fro arno wrth iddo dreulio amser o gwmpas yr afon a'r stesion; byd natur a'r amgylchfyd yn gyffredinol; ac, wrth gwrs, Capel y Bont a'r aelodau a'r dylanwad a gafodd y cyfryw ar gwrs ei fywyd.

Talodd deyrnged arbennig i'r diweddar Parchg Tom Nefyn Williams a oedd yn ymwelydd cyson â'i gartref. Gyda balchder y mynegodd ei fod yn un o chwech o weinidogion o godwyd yng Nghapel y Bont. Wedi'r sgwrs cafwyd egwyl ddifyr iawn dros baned o de.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 7 Gorffennaf, am 2.15 p.m. pryd y disgwylir Mrs Vera Griffith i'n diddori. Croeso cynnes i bawb.

CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN. Enillwyr mis Mehefin oedd — £35: Mrs I. Hughes, 2 Glyn Rhonwy (43); £25: Mr I. Thomas, Maes Padarn (91); £15: Mrs J. Roberts, 13 Stryd Goodman (32); £10: Mrs C. Roberts, Coed y Glyn (211); £5: Mrs Humphreys, Pant Bryngwyn, Llanrug (212).

TLWS YR ECO. Roedd noson Tlws yr Eco yn noson arbennig o lwyddiannus i blant Llanberis eleni. Enillodd tîm pêl-rwyd dan 11 oed a tîm pêl-droed dan 9 oed eu cystadleuaeth a daeth y tîm pêl-droed dan 11 yn ail. Diolch i Miss Bethan Owens, Ysgol Dolbadarn am hyfforddi'r tîm pêl-rwyd, a llongyfarchiadau i bawb.

YSGOL FEITHRIN. Cynhaliwyd noson hynod o lwyddiannus a llawn hwyl yng nghwmni Ceri a Morus a Pringles yng ngwesty Dolbadarn nos Fercher, 27 Mai. Cafwyd arddangosfa gan Ceri a Morus o liwio a thorri gwallt yn ogystal â sioe James Bond yn dangos fel mae steil gwallt wedi newid dros y blynnyddoedd. Yna daeth sioe ffasiwn gan gwmni James Pringles Weavers o Lanfairpwll yn dangos y

dillad sydd ar gael yn eu siop. Llwyddodd y noson i godi £650 tuag at yr Ysgol Feithrin a hoffem ddiolch yn fawr iawn unwaith eto i Ceri a Morus, Pringles, a Gwesty Dolbadarn am roi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Enillwyr y raffl fawr oedd: 1, Mary, d/o Carys; 2, Tomos Owen; 3, Bethan; 4, Jennifer Thomas; 5, Raymond Post; 6, Tracy; 7, Gwyn Jones; 8, Rosina; 9, Aneurin Dolbadarn. Enillwyr y raffl fach oedd: 1, Grace; 2, Nicola Philips; 3, Ann Fleming; 4, Dilys Roberts; 5, Bethan Roberts; 6, Catherine Williams; 7, Helen Dolbadarn; 8, Tracy Philips; 9, Nia Morris; 10, Ann Jones.

Mae'n rhaid inni hefyd ddiolch yn fawr iawn i Rhian Jones a lwyddodd i godi dros £200 i'r Ysgol Feithrin drwy fod yn ddigon dewr i wneud naid bynji nodedig yn ystod Gŵyl Fai Pwllheli.

Diolch hefyd i'r grŵp Caban am gynnal noson er budd yr Ysgol Feithrin yng Ngwesty Dolbadarn, nos Wener, Mehefin 19, a chodi £130.

Ddydd lau, Mehefin 4, cafodd plant a rhieni'r Ysgol Feithrin drip i ben y Wyddfa yn rhad ac am ddim. Diolch i Gwmni Rheilffordd y Wyddfa am eu haelioni a'u croeso. Cafwyd diwrnod braf; roedd y cerbydau wedi eu haddurno'n lliwgar a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

ER COF. I gofio pen-blwydd Mam, sef Hetty Hughes, Stryd Siarlot:

*Mis Gorffennaf — â'i atgofion
Sy'n torri tant ein telyn ni;
Un â'i gofal dros ei thylwyth
Cofiw'n byth ei chariad hi.*

Elizabeth, Griff ac Eluned. **DIOLCH.** Dymuna John, 6 'Rallt Goch ddiolch o galon i'w deulu a'i ffrindiau am y cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Beryl Owen, 46 Maes Padarn ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion, blodau, cardiau a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i feddygon a gweinyddesau wardiau Glyder, Aran, Beuno a Glaslyn am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr.

DRAENOG

Ydach chi'n cofio'r stori am y gŵr o Lanrug efo'r gloch drws? Wel, mae peryg y bydd o'n clywed coch arall cyn bo hir gan fod si ar led ei fod yn paratoi i fentro i'r cylch bocsio. Gwyllo gêm pêl-droed rhwng Llanber a Llangefni roedd o pan sgwariodd rhyw Fonwynsyn o'i flaen. Doedd dim rhaid iddo wneud llawer i ddychryn y Monwynsyn . . . roedd tynnu'i sbectol mewn un symudiad chwim yn ddigon i ber(t)i i hwnnw ffoi am ei fywyd. Ai dyma ddechrau gyrfa newydd tybed? Os gallodd George Forman gamu nôl i'r cylch bocsio be sy'n rhwystro'r gwron ifanc 70 mlwydd oed hwn?

MAE

SHARON VAUGHAN WILLIAMS
B.A. (Anrh.) Dip Perf

YN CYMRYD DISGYBLION
AM WERSI PIANO, CANU
A THEORI.

Cysylltwch â hi yn
YNYS IAGO, PENTIR
Ffôn: (01248) 353746

OSMOND SHAW
DEINIOLEN



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

cerdded dros y galon . . .



Mrs Mati Hughes, arweinydd Lleisiau Lliwedd yn trosglwyddo sic am £450 i Jenkin Griffith, Bethel, Ysgrifennydd Pwyllgor Arfon o Apêl y Galon Gogledd-orllewin Cymru. Amcan yr apêl yw codi arian at Dŷ Robert Owen yn Broadgreen, Lerpwl, sef lle i berthnasau cleifion sy'n derbyn triniaeth lawfeddygol ar y galon. Mae'r Tŷ yn golygu y caiff perthnasau aros mewn man agos i'r wardiau gyda chysylltiadau ffôn ac heb y pryder o orfod chwilio am le i aros ar adeg mor bryderus. Yn unol â nod yr apêl bydd peth o'r arian a godwyd yn mynd hefyd at Ganolfan Ymchwil y Gallu Syr Geraint Evans, Caerdydd. Diolch yn fawr i ferched y Côr am fynd ati i drefnu taith gerdded nodedig i godi'r arian at yr achosion da hyn. Erbyn hyn mae'r gronfa wedi cyrraedd £8461 a gall unrhyw un gyfrannu trwy anfon sicciau i Mrs Beti ap Iorwerth, Alltwen, Ffrwd Cae Du, Bontnewydd, Caernarfon a'u gwneud yn daladwy i 'Apêl y Galon, Gogledd-orllewin Cymru'.

. . . a rhedeg dros y cefn



Noddwyd Kevin Prytherch i redeg Marathon Eryri y llynedd er budd Ysbyty Gobowen. Llwyddodd i orffen yn safle'r 23ain a chwblhau'r ras mewn 3 awr ac 1 munud. Casglwyd £500 at Gronfa Apêl Anafiadau i Asgwrs y Cefn Ysbyty Gobowen. Diolch i Kevin a phawb a gyfrannodd, yn enwedig staff First Hydro, Rheilffordd yr Wyddfa, Gwasanaethau Cymdeithasol Llangedfni a Chlwb Chwaraeon Awyr Eryri. Diolch i chi i gyd. Yn y llun gyda Kevin y mae'r trefnwyr Alwyn Thomas a Gari Davies.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CARNIFAL. Bydd Carnifal Nant Peris eleni nos Wener, Gorffennaf 24 am 6.30 o'r gloch. Bydd Band Llanberis yno ynghyd â Dawnsyr Morris Llanberis. Bydd stondinau, tombola, rafflau, cŵn poeth a chastell neidio. Cofiwch y cystadlaethau gwisg ffansi wrth gwrs. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Nant am noson hwyliog. Dewch i fwynhau eich hunain a chefnogi'r Carnifal. Cynhelir Noson Gwisg y Carnifal yn Nhy'n Llan, nos Fercher, Gorffennaf 22 am 8.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i honno hefyd.

LLWYDDIANT. Llonyfarchiadau i John Ellis, 5 Nant Ffynnon ar ennill gradd B.A. Arch (Anrhydedd) mewn cwrs Diploma graddedig ym Mhrifysgol de Montford, Caerlŷr.

BEDYDD. Yn ddiweddar bedyddiwyd Bethan Angharad Davies, merch fach Jennifer a Robin Davies, Coed Boelyn, Bethel, yn Eglwys Sant Peris. Wyres i Tony a Margaret Ellis, 5 Nant Ffynnon yw'r fechan wrth gwrs.

YN 18 OED. Pen-blwydd hapus i Aled Davies, 1 Tan y Bryn a fydd yn 18 oed ar Orffennaf 8.

LLWYDDIANT. Llonyfarchiadau i Ann Claire Williams, 19 Llys y Garn, Caernarfon ar sicrhau GNVQ Uwch gydag anrhydedd mewn Hamdden a Thwristiaeth. Pob llwc yng Nghaerdydd hefyd oddi wrth Nain, Tan y Bryn a'r teulu i gyd.

YSGOL FEITHRIN. Dymune pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch i bawb am

gefnogi'r gwahanol weithgareddau codi arian yn ddiweddar. Gweler y manylion yng nghlofn Llanberis.

TRIP YR YSGOL SUL. Mae trip Ysgol Sul Capel Coch yn mynd i Camelot ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4. Bydd y bws yn cychwyn o'r Nant am 7.55 o'r gloch y bore.

DIOLCH. Dymuna Ann a Bob ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu pen-blwydd — Ann yn 60 ar 25 Mai a Bob yn 65 ar 24 Mai. Diolch i Bethan a Gwenno am y teisennau a diolch i staff y Fictoria, Llanberis; ac i Raymond Post am yr adloniant. Diolch yn arbennig i'r plant am drefnu'r noson.



DIOLCH. Dymuna Mrs Jeni Williams, Pennant ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, anrhegion, ymweliadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch hefyd i Bwyllgor Carnifal y pentref am y blodau hardd.

CARNIFAL LLANBERIS

13 - 18 GORFFENNAF 1998

GWEITHGAREDDAU'R WYTHNOS:

NOS WENER, 10 GORFFENNAF
NOSON CORONI BRENHINES Y CARNIFAL

NOS LUN, 13 GORFFENNAF
GYRFA CHWIST YN Y GANOLFAN AM 7.30
CYSTADLEUAETH PŴL, GWESTY'R HEIGHTS AM 8.30

NOS FAWRTH, 14 GORFFENNAF
MABOLGAMPAU AR DDŌL Y GOEDEN AM 6.00
CWIS YN NGWESTY TYWYSOG CYMRU AM 9.00

NOS FERCHER, 15 GORFFENNAF
DISGO'R PLANT YN Y GANOLFAN 6.30 - 8.30
CYSTADLEUAETH DARTIAU YNG NGHLLWB
CYMDEITHASOL LLANBERIS A'R CYLCH AM 8.00

NOS IAU, 16 GORFFENNAF
GÊMAU PÊL-DROED PLANT AC OEDOLION A
PHÊL-RWYD I FERCHED AM 6.30

NOS WENER, 17 GORFFENNAF
BINGO YN Y CLWB CYMDEITHASOL AM 7.30

DYDD SADWRN, 18 GORFFENNAF

★ ★ Y CARNIFAL ★ ★

YR ORYMDAITH YN CYCHWYN GER GWESTY'R PRINCE
AM 1.00. AGORIR Y CARNIFAL GAN IONA AC ANDY.

CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI • CYSTADLEUAETH CEFFYLAU
NEIDIO • SYRCAS UN DYN • ARWERTHANT CIST CAR
SEINDORF DEINIOLLEN • BOLTON SCOTTISH BAND
WMFFA BAND • DAWNSIO LLINELL AMERICANAIDD . . . a mwy!

PRIF NODDWR Y CARNIFAL — FIRST HYDRO

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

CYNGOR EGLWYSI. Dymuna aelodau'r Cyngor ddiolch i ardalwyr Ceunant, Tan-y-coed a Llanrug am eu haelioni tuag at Cymorth Cristnogol ac i'r casglwyr am eu hymdrechion eto eleni. Casglwyd cyfanswm o £816.49.



Siwan Mair

LLONGYFARCHIADAU i Siwan Mair a ddaeth yn drydydd ar yr unawd 8-10 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llŷn ac Eifionydd. Wyres Mrs Eileen Williams, 10 Afon Rhos a Mr a Mrs Gwilym Jones, Perthi yw Siwan. Mae'n ferch i'r Dr Medwyn a Myfanwy Williams ac yn byw ym Mhencamisiog, Môn.

DIOLCH. Dymuna Bob a Beryl Thomas, Awel Deg ddiolch yn gynnes iawn i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniasant ar yr achlysur hapus o ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

GRŴP SGOWTIAID. Dymuna Andrea Roberts, Bryn Derwen, 17 Ffordd Cwstenin, Caernarfon glywed oddi wrth unrhyw berson a fyddai â diddordeb i'w chefnogi i ailddechrau grŵp Sgowtiaid yn Llanberis, a chychwyn grŵp newydd yn Llanrug. Byddai'r plant a phobl ifainc rhwng chwech ac ugain oed. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Andrea Roberts ar (01286) 678856.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nancy Roberts, Manod, Ffordd Glanffynnon ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd iddi ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Adrian Evans, 4 Ffordd Glanffynnon ar ei daith feicio noddedig o Clatterbridge i Ysbyty Gwynedd ddydd Sadwrn, 20 Mehefin, i godi arian tuag at yr Uned Gancr newydd ym Mangor.

CROESO i Lanrug o'r Ceunant i Robin, Evelyn, Ceri, Dafydd ac Elin sydd wedi ymgartrefu yn Glangors. Dymunwn pob hapusrwydd i chwi yn eich cartref newydd.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Heulwen Parry, Afon Rhos a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Wavell Roberts ar ennill sawl gwobr ac anrhyddedd am ei selsig arbennig mewn cystadlaethau ym Mae Colwyn ddechrau mis Mehefin.

PLAID CYMRU. Enillwyr Helfa Drysor y llynedd oedd yn trefnu'r Helfa eleni, sef Aled Roberts, Mark Owen ac Iwan Owen. Nos Wener, Mehefin 19, cychwynnwyd o Ysgol Brynrefail am 6.30 o'r gloch gyda llond naw car yn hyderus o gyrraedd pen y daith. Roedd yn daith o tua 11 milltir, y tywydd yn fendigedig, a gwledd yn ein haros ar y diwedd yn Nhafarn Ty'n Llan, Llandwrog.

Enillwyr eleni oedd Nia, Morfudd ac Owenna, ac aeth y wobwr gysur i dîm 'Man-U'.

Diolch am noson gymdeithasol hwyliog braf; edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf, a diolch o galon i'r hogia am ymgymryd â'r trefniadau.

Bydd y Cyfarfod Blyneddol, a gynhelir nos Iau, Gorffennaf 9, yn dod â rhaglen y tymor i ben.

DRAENOG

Mae ganddyn nhw ffordd od o wneud coffi yng Nghyprus — wel, dyna oedd profiad gwraig o Waunfawr a fu yno ar ei gwyliau yn ddiweddar. Maen nhw'n defnyddio lemonêd yn lle dŵr, wyddoch chi. Ych a fi! Fasa'n well iddyn nhw fynd a'u KIT 'i hunan efo nhw y tro nesa.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



Tîm tenis yr Ysgol Gynradd a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Banc y Midland yn ddiweddar.



Dudley'r Ddraig yn ymweld â staff cegin yr ysgol.

Trwy fy ffenestr i . . .

Tua saith o'r gloch y bore: Mwynhau paned gynnes o de yn y 'cando' ac yn edrych allan a gweld y goeden fawr dderw yn y cae gerllaw yn newid ei lliw gwyrdd bron yn ddyddiol — fel pe bai hi'n dweud: 'Dyma liw y gwanwyn'. Gwyrth yn wir.

Na, does gen i ddim teimlad o euogrwydd fy mod i'n diogi yn y bore. Erbyn hyn caf edrych yn ôl dros flynyddoedd o orfod rhoi tro sydyn yn y bore er mwyn darparu ar gyfer diwrnod sylweddol o waith, gan wybod y caf bellach ymlacio a mwynhau

gweld y pentref yn deffro a mynd o gwmpas ei ddyletswyddau.

Daw ci bach del i'r golwg a'i feistres yn ei dywys gan ddisgwyl yn ofalus amdano. Rwyf wrth fy modd yn sylwi arni'n aros yn amyneddgar i'r ci ddod ati cyn ei dywys yn ôl i'r tŷ ac i ddiogelwch. Yng nghanol bwrllwm a rhuthr bywyd da yw sylwi a gweld y tawelwch yn ei chylchynnu yn ei gofal o gi bach dall.

Prynwch gi, ac ewch a fo am dro yn gynnar yn y bore — byddaf yn edrych drwy fy ffenestr ac yn mwynhau'r olygfai!

**DAFYDD
OWEN
TRYDANWR**

Pob math
o waith trydanol
a Larwmiau Lladron

National Inspection Council for
Electrical Installation Contracting

Aelod o'r



APPROVED CONTRACTOR

**11 Rhes Faenol
LLANBERIS**
Ffôn: (01286) 871680

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Rhai o blant bach yr Ysgol yn mwynhau hufen iâ ar draeth Dinas Dinlle.

APÊL CANCR. Casglwyd y swm anrhydeddus o £145 o dŷ i dŷ gan Mrs Bessie Williams a Mrs Eirlys Jones. Diolchir i bawb am eu haelioni at yr achos teilwng hwn. PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Mehefin a'r enillwyr oedd — 1, René Morris, 2 Llys y Gwynt; 2, Megan Jones, Perthi; 3, Wendy Philips, 7 Tai Arthur.

Daeth nifer dda o blant ac oedolion i gerdded llwybrau yr ardal, nos Wener, Mehefin 19. Trefnwyd y daith gan Leslie Larsen ac fe fwynhaodd y plant chwilio am y cliwiau. Fe lwyddodd nifer fawr yn rhagorol iawn. Aeth y gwobrau cyntaf am farciau llawn (52) i Eifion a Dafydd; llŷr Hughes, Sioned Mai a Jên Jones; a Sioned Alaw a Lois. Cafodd nifer 51 o farciau hefyd. Diolchir i Leslie am drefnu'r weithgaredd ac i bawb a gefnogodd y noson.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd yr aelodau yn ymuno ag aelodau Ysgol Sul Ebeneser, Deiniolen bawn Sul, Gorffennaf 5, i godi arian at addysg geneth fach a fabwysiadwyd ganddynt drwy Action Aid. Bydd y plant yn dysgu adnoddau, salmau a darnau o'r Ysgrythur a gofynnir yn garedig i ffrindiau eu nodd. Bydd Cwis Beiblaidd a fideo a lluniaeth ysgafn.

TRIP YR YSGOL SUL. Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon o groesffordd King am 7.45 a.m. Bydd yn cychwyn

o Southport oddeutu 6.30 p.m. Gobeithio y bydd y tywydd yn braf i chwi blant.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhaliwyd Cymdeithas y Beiblau yng Nghapel Brynrefail, Mehefin 28, gydag eitemau gan y plant yn y prawn a Chymanfa Ganu yn yr hwyr.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Sioned Wyn Jones, Bryntirion ar achlysur ei phen-blwydd yn 21ain oed ar Fehefin 26. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol, Sioned.

Llongyferchir Delyth ac Alwyn Williams, Pen-y-gaer ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab bychan, Idan, i Rhian a Rhys, Pen-y-groes; brawd bach i Cian. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

DIOLCH. Dymuna Sioned Wyn Jones, Bryntirion ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 21ain oed.

YSGOL GYMUNED. Bu plant dosbarth Derbyn, Bl. 1 a 2, ar lan y môr Dinas Dinlle yn astudio'r bywyd gwyllt yno fel rhan o'u gwaith thema. Cawsant gyfle hefyd i weld ceir arbennig iawn gan Meinir a Dylan Griffiths.

O hyn tan ddiwedd y tymor bydd plant Bl. 6 yn dilyn cwrs beicio diogel ac yn ymweld ag Ysgol Brynrefail am ddiwrnod.

Bydd Mabolgampau'r ysgol yn

cael eu cynnal 6 Gorffennaf. Eleni bydd Trip yr Ysgol yn ymweld â Chastell Bodolwyddan.

I gloi'r tymor bydd noson o Hwyl Haf ar 13 Gorffennaf yng ngofal y Cyfeillion. Croeso cynnes i bawb. DIOLCH. Dymuna Mr R. Humphreys, prifathro yr ysgol, ddiolch i'r staff, plant a phobl y pentref am y llu cardiau, ymweliadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod ei waeledd yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

EGLWYS SANTES HELEN

Cynhelir wythnos o weithgareddau yn ystod wythnos olaf mis Awst eleni gyda'r elw tuag at yr Eglwys. Dyma grynodeb o raglen yr wythnos:

Llun, 24 Awst

Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 7 p.m.

Mawrth, 25 Awst

Mabolgampau ar gae'r Ysgol am 6 p.m.

Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7 p.m.

Mercher, 26 Awst

Helia Drysor yn cychwyn o Neuadd yr Eglwys am 7 p.m.

Iau, 27 Awst

Arddangosfa a Gŵyl Flodau yn yr Eglwys o 10.00 a.m. - 5.00 p.m.

Gwener, 28 Awst

Gŵyl Flodau yn yr Eglwys 10.00 a.m. - 5.00 p.m. Twmpath Dawns yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 p.m.


Sadwrn, 29 Awst

Y Carnifal ar gae yr Ysgol am 2.00 p.m.

Sul, 30 Awst

Cymanfa Ganu yn yr Eglwys am 7.00 p.m.

Hyderwn y caiff y gweithgareddau hyn gefnogaeth deilwng y pentrefwyr.



Plant adran y babanod fu'n ymweld â chartref Dylan a Meinir Griffiths i weld y ceir arbennig.

Adfywio Bro

Mae Arolwg Waunfawr a Chaeathro yn agosáu at ddyddiad argraffu ar ôl cael sêl bendith y tri grŵp thema a'r pwyllgor llywio. Ers dechrau'r broses o greu'r holiadur mae nifer o sylwadau a thrafodaethau gwreiddiol (a rhai'n boethach nac eraill) wedi codi a bydd derbyn syniadau'r gymuned gyfan yn hynod gyffrous.

Hefyd mae rhai cyrff wedi bod yn brysur yn cwblhau ail ran eu ceisiadau am arian o Gist Gwynedd ar gyfer prosiectau amrywiol.

Cofiwch os oes gennych chi syniadau yr hoffech eu trafod — bo'r rheini'n syniadau ar gyfer

prosiectau cymunedol ym mro Gwyrfa, neu unrhyw gynllun arall all fod yn rhan o adfywiad yr ardal cysylltwch ag Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfa ar (01286) 750 779 neu galwch i'w gweld yng Nghanolfan Waunfawr.

Mae Eirian yn gwasanaethu plwyfi Llanwnda, Llandwrog, Bontnewydd, Waunfawr a Betws Garmon ac erbyn hyn mae syniadau cyffrous a chlodwiw wedi codi o'r cymunedau. Cysylltwch ag Eirian felly ac ymunwch yn y bwrlwm a gwnewch y mwyaf o'ch Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymmerir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



Llythyr o'r 'Mericia

Cambria,
Wisconsin
U.S. America
July 18th 1884

Anwyl frawd,
Meddyliais unwaith am beidio ysgrifennu attat hyd nes y buaswn wedi derbyn attebiad i'r llythyr a anfonais yna ddiweddf, nid ystyriais y buasai yr amser yn myned ychydig yn faith, erbyn y buaswn yn disgwyl 2 wythnos. Y fan leiaf a 2 wythnos wedi hyn, buasai yn rhedeg ymhell erbyn y cyrrhaeddai yna yn ol.

Yr oeddwn yn falch iawn o'r llythyr maith a ddyddorus a dderbyniais oddiwrthyt, a chael ar ddeall trwyddo dy fod wedi dod yn ol i'r cynefin iechyd yr oeddyt ynddo o'r blaen. Ni chredet byth gymaint yr wyf ei feddwl yn dy gylch, ers yn agos i hanner blwyddyn. Ac nid peth rhyfedd oblegid hynny oedd i mi deimlo yn falch pan ddeallais dy fod wedi gwella. Nid oes gennyf ddim i'w ddweud wrthyt ond am i ti gymyrru gofal o hyn allan. Peidio a maeddu dy hun tua'r Hafod, os yno y digwydd i ti fod. Cofia mai ychydig iawn o wahaniaeth y mae neb yn ei wybod yno rhwng gwaith i ladd ei hun, a gweithio cymedrol, ac mai yr un faint yn hollol fydd y parch yn y diwedd, ond llai fyth fydd y fantais o hynny.

Yr wyf yn deall mai yn isel iawn mae y fasnach lechi yna o hyd, a thrwy hynny yn peru mae isel iawn y cyflogau yna. Byddaf yn sylwi llawer ar yr ysgrifen yn y Newyddiaduron ar y pwnc hwn ac yn deall trwyddyt mai rhywbeth yn debyg yw teimlad cyffredinol y chwarelwyr trwy y wlad, sef teimlad anfoddog tuag at y meistri. Hwyrach fod gormod o raff yn cael ei ollwng i'r teimlad yn y cyfeiriad yna, onid yn wir y mae yn anhawdd rhoddi i ffwrdd iddo ar rai amgylchiadau. Ai ychydig ydyw y swm ymfudo yna yn awr?

Gwelais yn rhai o'r Newyddiaduron fod G.Eryri yn ceisio codi ysbryd ymfudiaeth, ac hefyd ei fod am sefydlu trefedigaeth Gymreig yn ychwanegol yn Dakota. Yr wyf i wedi clywed llawer iawn o son am dano ef ers pan wyf yma gan rai sydd yn ei adwaen yn dda, a barn phawb am dano ydyw nad yw yn ddyn i dependio llawer arno. Y mae wedi bod yn achos o lawer iawn o galedi ym mysg y Cymry yn Dakota, yn enwedig y rhai y darfu iddo ef emigratio o New York 4 blynedd yn ol. Y mae yn ddyn uchel yn ngolwg Cwmni y 'Milwaukee St. Paul Railroad'. Ac er y bydd rhai hynny y mae ef yn chwarae, ac nid lles ei gyd genedl.

Clywais nad yw John Parry Jones yn hoffi Dakota o lawer. Pa beth y mae yn ei hysbysu am dani i chwi yna? Yr wyf i yn credu fod John Parry wedi rhoi cyfeiriad wrong, ac yntau wedi mynd i gymmaint o oed ac erioed heb wybod am amaethu trwy brofiad, ond trwy hanes. Y mae hanes yn help mawr iawn ond y mae

profiad yn llawer iawn mwy. Yr hyn y byddaf yn gresynu llawer yn ei gylch fydd na buaswn yn ddigon cefnog i gael fferm yn yr ardalaeth hyn, yn lle aberth llawer iawn o gysurau, a mynd far west, ond nid oes yr chance i mi am hynny am hynny am flynyddau, achos y mae tir yn uchel iawn ai bris yn y fan hon o 30 i 60 dollars yr acre, ond yn y gorllewin y mae digonedd yn rhad a llawer am ddim, ond byw arno am ychydig flynyddau.

Ychydig o fy hanes fy hun yn awr. Nid wyf wedi bod yn teimlo yn llawn cystal ac yr wyf wedi bod trwy yr wythnos cyn y diweddf, ond yr oeddwn yn llygindio gyda fy ngwaith wedi'r cwbl, ond yr oedd yn galed iawn un diwrnod, ai wyddwn pa beth oedd arnaf. Ni bum yn teimlo salwch tebyg iddo erioed. Yr oeddwn fel dyn pren, a fy mhen bron a hollti gyda cur, a'r archwaith at fwyd wedi darfog yn hollol braidd. Ond yn awr yr wyf fel dyn newydd, yn teimlo fel cynt, ond gwae i'r bwyd os y daw i fy ngafael, bydd arnaf ofn fod y pryf mange arnaf. Euthum Nos Wener ddiwethaf at y Doctor, un o Trefriw, a dyna ddywedodd fod y Liver Complaint arnaf, hen afiechyd sydd yn poeni llawer yn America a Chymru, fel y gwyddoch yn dda. Mewn un ystyr nid oedd fy salwch yn werth son am dano wrthych, ond yr hyn oedd gennyf oedd ofn i'r hogan Lizzie yma ddweud wrthyt gartref ac y buasai yn rhoddi y mwyadur ar yr amgylchiad, ac yn ei chwyddo yn fwy nag y dylasai, a thrwy hynny yn peru pryder i chwi heb ei eisiau.

Yn fy llythyr diwethaf yr oeddwn yn dweud wrthyt fod Lizzie yn actio

yn iawn, onide? ond yn y llythyr hwn yr wyf am dyny fy ngeiriau yn ol, bob un o honynt, gan ei bod ychydig o ffordd oddiwrthyt. Ni wyddwn yn iawn pa beth oedd syniad y cymdogion am dani, ac hefyd yr oeddynt yn cadw rhagrithio wrthyt fi a'r teulu yma, ond yn awr wedi iddi ddod yma i aros, yr ydym ni yn cael golwg wirioneddol pa beth ydyw, ac y mae llawer wedi rhoddi hynt i mi pa fodd yr oedd yn actio yn y lle o'r blaen. Buaswn yn meddwl y buasai yn cyfnewid ychydig ar ol dod i le diethr iddi, heb fod yn adwaen neb, ond buan y mae yn dechreu dangos pa beth ydyw wedi dod i adwaen. Rwy'n deall fod un bai mawr arni yn Llanberis, ac nid ydyw wedi ymadael a'r bai hwnnw i'r gronyn lleiaf ar ol dod yma. Ni chlywais yr fath araeth yn dod o ben merch erioed, ac yr wyf wedi ei glywed ers 2 wythnos yn awr ar ol i Betty ymadael, ond oes ganddi yr un synied am wahaniaeth rhwng da a drwg yn ol ei actions. Y mae ei hymdygiadau anweddaidd, ai siarad anfoesol a rhegi yn ddigon a pheru i mi fyned oddiyma o'i swm ffol. Yn wir pe buswn yn gwybod mai fel hyn y buasai yn actio pan oeddwn yn cyflogi yma, ni buaswn yn yr ardal rwy'n siwr. Y mae yn warth ar y teulu yma, heb son am danynt yna. Y mae Anne wedi cael digon am bth, ond y mae yn dweud y caif aros yma trwy y cwbl hyd nes y daw Betty yn ol, a buan iawn y delo yr adeg hono meddwyf fi ynghyd a phawb arall yn y tŷ hwn. Camgymeriad mawr oedd ei chael yma erioed, achod y mae ei hymddygiadau yn y lle cyntaf wedi ffordio ei character yn yr amgylchoedd hyn. Y mae y merched

yma am ei gyry i rywle ddigon pell er mwyn cael llonydd ganddi. Mae'n debyg mae Milwaukee fydd hynny. Hwyrach y gwelwch fi ar fai yn dweud cymmaint ond nis gllaf ymattal rhag y gwirionedd am dani a hwn yn un cywir iawn hefyd. Rhyw ffordd y mae yn resyn garw gennyf drosti. Ni ddaw byth ymlaen yn un gronyn yn y wlad yma fel y mae. Yr wyf wedi ceisio ganddi wrandaw ar lawer o bethau gennf, ond 'cau dy geg' fyddi hi yn ddweud wrthyt, ac wrth Anne, ei meistres yn gyffelyb.

Peidiwch a gadael yr hyn yr wyf yn ei ddweud gael myned allan fel ag i'w theulu gael gwybod. Ni wnaent ddim ond poeni yn ei chylch. Y mae'n debyg y caent glywed gan rai o'r teulu yna i raddau. Cedwch pob peth i chwi eich hunain cofiwch. Daw i ddiwedd ofnadwy, os y bydd yn dilyn y ffordd y mae yn hir arwain etto.

Yr ydym wedi cael cynheuaf gwair i mewn ers 2 wythnos, a hynny yn yr amser byr o 18 diwrnod. Cymaint a 80 acre gennym o waith ar y dechreu. Gelli feddwl fod yma weithio pur dda, dim ond 3 o honom. Yr ydym yn awr yng nghanol cynheuaf yd.

Cofia ddweud cymmaint a elli am yr ewyllys frenhinol wrthyt.

Cofia ddweud hanes y cynheuaf gwait yna hefyd.

Wel rhaid dwyn i derbyn yn awr, gan gofio at bawb o'r hen gyfeillion, ac yn enwedig y perthynasau, ac mwy enwedig fyth, y teulu; pawb o honynt, a derbyn dithau y cofion goreu.

Ydwyf attat

Dy frawd

OWEN

'Mae Mam yn y llun yna!'



Anfonwyd y llun hwn o blant Ysgol Dolbadarn Llanberis o'r 1950au atom gan Jim Jones, Siop Gig, Llanberis. Roedd Jim newydd gael copi o'r llun un bore pan ddaeth Mrs Lowri Davies i mewn i'r siop. Dangosodd Jim y llun iddi gan fod ei merch, Rosina sydd yn byw yn Awstralia ers blynyddoedd, ynddo. Roedd merch ifanc ddiarth efo Mrs Davies a syndod mawr i Jim oedd deall mai Mandy, merch Rosina oedd hi! Roedd hi'n digwydd bod ar wyliau yn nhŷ ei nain. Cafodd gopi o'r llun i'w mam ar unwaith.



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

DIOLCHIADAU. Dymuna Phil a Delyth Lowe, Gwylfa ddiolch i'w teulu, ffrindiau a thrigolion y pentref am y caredigrwydd a dderbyniasant fel teulu ar enedigaeth eu merch fach, Megan. Dymunant hefyd ddiolch am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli tad Phil yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Gareth Roberts, 16 Stad Bro Waun ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd ar gyrraedd ei hanner cant oed.

Hoffai Marian, Foel, 12 Dôl Erddi ddiolch o galon i'w chymdogion, teulu a chyfeillion am eu caredigrwydd diflino cyn a thra bu yn yr ysbyty yn Llandudno. Diolch hefyd am y cyfarchion.

Dymuna Gwynna, Glyn Ceris a'i dyweddi, Geraint, ddiolch yn fawr am yr holl gardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Miss B. Jones, Stad Tref Eilian sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd; ac at Mr Eric Jones, Stad Tref Eilian sydd yn Ysbyty Gwynedd; a hefyd Mr G. Owen.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mrs K. Williams, Stad Croesyaun. Da deall eich bod yn gwella'n raddol bach.

Da deall hefyd fod Beth Greasley, Stad Pant Waun yn gwella wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn dilyn damwain.

LLONGYFARCHIADAU i Joanne Greasley, Min Afon ar ei phriodas â Abdul-Raham Wahab o Enfield, Middlesex.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Martin Beech, Rose Mount ar gyrraedd ei un ar hugain oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Martin.

CYMORTH CRISTNOGOL. Cyfanswm y casgliad eleni oedd £363.79. Dymuna'r trefnydd, O. T. Jones, ddiolch i'r pentrefwyr am eu haelioni ac hefyd i'r rhai fu'n casglu o dŷ i dŷ.

PLAID CYMRU. Yng nghyfarfod blynyddol y gangen etholwyd y swyddogion canlynol: Cyng Eurig Wyn (Cadeirydd); Gill Brown (Ysgrifennydd); Duncan Brown (Is-gadeirydd); John Gwynedd Jones

(Trysorydd); Jean Jones (Ysgrifennydd Aelodaeth). Mynegodd Eurig Wyn y byddai'n hapus iawn i gynrychioli Plaid Cymru unwaith eto fel eu hymgeisydd yn etholiadau'r cyngor sir y flwyddyn nesaf. Diolchwyd i Duncan Brown am ei waith fel cadeirydd dros y tymor diwethaf a chroesawyd Richard Tomos, trefnydd newydd Plaid Cymru yng Ngwynedd, i'r cyfarfod. **CASGLIAD APÊL CANCR MACMILLAN.** Yn dilyn y casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar dyma restr o'r casglyddion a'r swm a gasglwyd ganddynt — Mrs Mair Parry, Deulyn: £46.44; Miss Marian Wyn Jones 12 Dôl Erddi a Mrs Olwen Owen, 18 Tref Eilian: £61.36; Mrs Veronica Owen, Cil-y-mynydd: £20.81; Miss Ifanwy Rhisiart, Bod Afon: £51.23; Snowdonia Parc: £12.80; Mrs C. A. Jones, Bryn Gwenallt: £57.86. Cyfanswm y casgliad: £250.50.

Dymuna Mrs Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt, y trefnydd lleol, ddiolch i'r casglwyr am eu help eto eleni a diolch i bawb a gyfrannodd i'r achos teilwng hwn.

EISTEDDFOD Y WAUN. Cynhelir Eisteddfod y pentref eleni ddydd Sadwrn, 7 Tachwedd, gyda Eisteddfod y Plant yn dechrau am hanner dydd. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus penderfynwyd cynnal Eisteddfod Tai gyda'r hwyr am y tro cyntaf eleni a hynny i ddechrau am 7.30 yr hwyr. Y beirniad cerdd fydd Maldwyn Parri a Bethan Dobson fydd y beirniad llefaru. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r ddau dîm gyda'r hwyr cysylltwch â Sioned Owen, 17 Stad Tŷ Hen, Waunfawr. Ffôn: (01286) 650 599.

ENILLWYR CLWB 300 mis Mai — £40: Mrs Mair Parry, Deulyn; £25: Mrs Hian Jones, 1 Tref Eilian; £10: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart.

DRAENOG

Wir i chi, dydw i ddim yn dilyn y creadur o gwmpas y lle yn glos. Ond, do, mae o wedi mynd i drybini eto. Y tro hwna, mynd â'r cerbyd i'r garej wnaeth o a dod oddi yno wedi cael sylw i'r brecs, y batri . . . a'r bresus. Roedd dyn y garej wedi arfer delio efo fan-belts ond dyma'r tro cynta iddo fo orfod estyn y tŵls i drwsio bresus gyrrwr y fan.



Tîm dan 9 oed a ddaeth yn ail yng nghystadlaeth Tlws yr Eco.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

GARTREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mrs Betty Peris Roberts sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, wedi cael dod gartref ac yn cryfhau'n ddyddiol. Hefyd mae'n dda clywed fod Mr Richard Williams, gynt o'r pentref ond bellach yn byw yn Neiniolen, yntau hefyd wedi cael dod adref wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella eich dau a gobeithio y cawn eich cwmni yn fuan iawn yn y gymdogaeth.

YMDDEOLIAD. Rwy'n siŵr ein bod fel ardal yn dymuno'n dda i Mr Evan Bryn Roberts ar ei ymddeoliad cynnar o Chwael y Penrhyn. Dechreuodd Evan weithio yn Chwael Dinorwig ond wedi i'r chwael gau yn 1969 fe symudodd i weithio i'r Penrhyn a bu'n gweithio yno am dair blynedd ar hugain. Dymunwn pob bendith ac iechyd iddo i'r blynyddoedd a ddêl. Rydym wedi cael ar ddeall gan Hannah ei fod o a'r 'Hoover' wedi dod yn ffrindiau mawr yn ddiweddar!

CYFARFOD MISOL M.C. ARFON. Daeth yn amser i Eglwys M.C. Dinorwig dderbyn y Cyfarfod Misol unwaith eto. Pedair blynedd sydd ers y bu yma o'r blaen. Erstalwm pob saith mlynedd y byddai'r Cyfarfod Misol yn ymweld ag ardal ond gan fod cymaint o eglwysi wedi cau yn Arfon rhaid bellach eu derbyn yn amlach. Cynhaliwyd oedfa ar 19 Mai am 1 o'r gloch — roedd hi'n

ddiwrnod arbennig o braf a'r ardal yn edrych ar ei gorau. Llywydd y cyfarfod oedd y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Llanrug a rhoddwyd Hanes yr Achos yn Ninorwig gan y trysorydd, Mrs Katie Lloyd Hughes. Dywedodd er mai ychydig o aelodau ydym yn Ninorwig ei bod yn eglwys gynnes a llewyrchus iawn. Yn bresennol yn y cyfarfod roedd y Parchg Ddr D. Ben Rees, Lerpwl a chafodd groeso gwresog.

Wedi'r cyfarfod roedd lluniaueth wedi'i baratoi yn y Ganolfan gan chwariydd y capel. Dymuna swyddogion y capel ddiolch o galon i'r merched am y wled a baratowyd ganddynt.

CYFARFOD PREGETHU. Yn unol â thraddodiad cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu Sardis ar y Sulgwyn, sef Sul olaf mis Mai. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Huw Dylan Jones, Llangwm a chafwyd oedfa pnawn a hwyr a chynulleidfaoedd teilwng.

Dydd Sul, 14 Mai, cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu Eglwys Llandinorwig a'r pregethwr gwadd oedd y Parchg Andrew Jones, Llanbedrog. Yn ystod gwasanaeth yr hwyr cysegrwyd dau lun er cof — un llun o'r tu allan i Eglwys Llandinorwig, yn rhoddedig gan Mr Dewi Williams, a'r llall yn lun o y tu mewn i Eglwys y Santes Fair, rhoddedig gan Miss Marian Jones. Cysegrwyd y lluniau gan y Parchg Tegid Roberts.

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas.

Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro nos Wener olaf bob mis

Rhedwyr y Fro yn cyrraedd yr Uchelfannau

Mae dynion a merched o fro'r *Eco* wedi llwyddo ym maes rasio mynydd dros yr wythnosau diwethaf, a siawns na welir pencampwr a phencampwraig o'r fro erbyn diwedd y tymor. Mae'r Gynghrair Nos Fawrth yn mynd o nerth i nerth gyda dros hanner cant o redwyr yn troi allan i gystadlu yn rheolaidd bob yn ail nos Fawrth mewn gwahanol leoliadau. Cafwyd ras eithriadol o galed i fyny'r inclens yn Llanberis gyda Colin Donnelly o Ddinorwig yn gyntaf ac Alun Vaughan o Lanberis yn ail. Gwynfor Owen o Lanrug oedd yn gyntaf yn yr adran i rai dros 40 oed.

Yng Ngarndolbenmaen bythefnos yn ddiweddarach daeth enw arall i'r brig. Dychwelodd Colin Jones, Pontrug o'r America gan redeg ei ras fynydd gyntaf ers misoedd — ac ennill. Colin Donnelly ddaeth yn ail y tro hwn a Gwynfor Owen unwait eto'n ennill yr adran dros 40 oed. Yr un canlyniad yn union gafwyd yn Ras Mynydd Mawr ganol mis Mehefin gyda Colin Jones y tro hwn yn torri ei record ei hun am y cwrs.

Mae dwy ras yn weddill yn y gynghrair — y Garn, Rhyd-ddu a Moel Eilio, Llanberis. Bydd angen i'r ddau Colin gystadlu yn y ddwy ras os ydynt am hawlio safle yn y gynghrair. Mae'n argoeli am ddiweddglo cyffrous rhwng dau redwr yn cynrychioli dau begwn daearyddol bro'r *Eco*. Mae'n ymddangos hefyd y bydd pencampwriaeth yr adran dros 40 oed yn cael cartref gyda Gwynfor Owen yn Llanru. Does

dim curo arno hyd yma y tymor hwn.

Yn adran y merched mae'r gystadleuaeth drosodd oherwydd bod Jayne Lloyd o Gaeathro wedi ennill pob un o bump ras yn barod ac nid yw'n bosibl i unrhyw un o'r merched eraill ei goddiweddyd.

Cynhaliwyd nifer o rasus eraill hefyd yn ystod y misoedd a aeth heibio ac unwaith eto daeth llwyddiant i redwyr o'r fro. Roedd Alison Donnelly o Ddinorwig yn aelod o dim merched Eryri a fu'n cystadlu yn Cutler Fell yn yr Alban, ac a sicrhodd drydydd safle i'r tim ym Mhencampwriaeth Prydain. Maent bellach yn sicr o ddal eu gafael yn y fedal efydd, ond gydag ymdrech arbennig yn y ras olaf ar Foel Siabod, gallai'r tim gipio'r arian.

Mae Pencampwriaethau Cymru ar y gweill hefyd gyda dwy ras eisoes wedi eu cynnal — y ddwy yn Ne Cymru. Yn Ras Llangors, Colin Donnelly oedd yr enillydd gan dorri record a fu'n sefyll am dros ddeng mlynedd. Yn ddiweddarach yn y mis teithiodd i Ddolgellau gan ennill Ras Cader Idris am y pedwaredd tro'n olynol. Roedd Gwynfor Owen yn chweched yn y ras gan ennill yr adran dros 40 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Iolo Huws o Lanrug ar ennill yr adran i fynyddwyr yn Ras 1000 metrau, lle roedd angen iddo gario pac ar ei gefn — a rhedeg! — o draeth Aberbwyngregyn i gopa'r Wyddfa.

Mae'r tymor bellach bron â

chyrraedd ei uchafbwynt, gyda Ras yr Wyddfa ar gornel ac yna weddill rasmus Pencampwriaeth Cymru. Gobeithio y bydd adroddiadau llawn ar lwyddianau rhedwyr y fro yn y rhifyn nesaf o'r *Eco* yn dilyn gwyliau'r haf.

**Bydd rhifyn nesaf o'r
Eco yn dod o'r Wasg
nos Iau, 10 Medi**

(Copi erbyn 31 AWST)

Gwraig y Tŷ yn yr Ardd

Clywais ar y newyddion y bore 'ma fod pobl Beddgelert a addurnodd eu pentref â blodau, yn cwyno am y rhodedendron sydd fel pla yno, a minnau'n meddwl y byd o un coeden rhodedendron gyffredin sydd yn tyfu nepell o'n drws cefn. Nid yw yn un arbennig iawn ond er hynny yn flodyn a mae pob chwynyn yn flodyn — hyd yn oed yr hen ddant y llew.

Mae llwyni blodau yn gwneud tipyn ar yr ardd ar hyn o bryd — y potentilla ydi'r orau gen i am ei bod yn blodeuo drwy'r haf yn well hyd yn oed na'r coed rhosynnau. Mae Mehefin yn fis y rhosynnau, ond ni fuaswn i'n gweld dim bai arnyn nhw am beidio dangos eu lliw y mis Mehefin yma.

Mae yna goeden rhosyn Saron y cylywir yr emynwyr yn gwneud cymhariaeth ohoni, ond hypericum ydi'r enw catalogaidd ar y rhosyn yma. Melyn ydi fy un i — nid gwyn a gwridog. Edrychaf ymlaen at weld y goeden rosynnau fel rhosynnau gwyllt a roddodd y fath sioe y llunedd, gydag arogl hyfryd. Siawns na chawn ni haul y mis nesaf i'n symbylu dipyn.

Roedd ffrind imi'n dweud na allai dyfu camellia yn ei gardd fach hi. Tipyn o gamp imi ond mae yna'r fath beth â bysedd gwyrdd gan rhai pobol ac mae popeth yn tyfu ganddynt.

O'r llwyni rŵan i'r blodau yn y potiau. Mae'r daffodils bach wedi eu codi a'r petunia a'r begonias bach wedi eu plannu yn eu lle. Dwi'n meddwl fod y begonias bach yn dwtiach na'r rhai mawr trwm, sy'n hardd iawn wrth gwrs. Trwy garedigrwydd cyfaill, sy'n arddwr arbennig o dda, mae yna fasedg grog yn y tŷ gwydr. Mae garddwr iawn yn dwued ei bod yn hawdd, fodd

bynnag, mae'r un sydd yn fy nhŷ gwydr i yn werth ei gweld — petunias, ac yn y blaen.

Cofiw'n imi ddweud imi hau persli (perlys) mewn pot bach ar ffenest y gegin. Hen hdau bach digon styfnid ond buont yn llwyddiant eleni ac maent wedi mynd i bot mwy allan ac yn dod ymlaen yn iawn. Hei lwc am hwn yn hytrach na'r pcedi saws o'r siop!

Fel y dywedais y tro diwethaf, plenis mewn pot hen datws oedd wedi egino gan obeithio cael tatws newydd yn gynnar ond methiant fu hyn. Mae arnaf ofn, er mai yn y tŷ gwydr y gwnes fentro mae gwlŷdd da iawn ond beth sydd o dan y gwlŷdd sy'n bwysig! Does dim, ond rwyf yn dal i obeithio am dipyn eto.

Ydach chi'n gwyllo 'Clwb Garddio' ar S4C? Dwi ddim yn cael cystal blas arno, ond mae Maldwyn Thomas o Ddolgellau yn swnio'n brofiadol iawn.

Wel, dyna fo am y tro — hwyl yn yr ardd.

DRAENOG

Deffrôdd ffarmwr lleol ganol nos a chlywed sŵn mawr ar y buarth. Allan â fo gan ofni bod rhywun yn dwyn moto-beic y mab. Sylweddolodd mai ffrind iddo oedd yn creu'r comosiwn. Roedd hwnnw wedi bod ar ei wyliau yn yr Alban efo'i caravanette. Wedi dod nôl i'r fro yn hwyr y nos, roedd y cerbyd wedi blino'n lân a thagu a thisian a thagu fu ei hanes wrth iddi geisio dringo'r allt o Fethesda tua Mynydd Llandegai. Do, fe aeth yr allt yn drech na'r hen fan a bu'n rhaid chwilio am ffordd arall adref. Ond, do, fe fethodd fynd i fyny'r Lôn Newydd hefyd! Rhaid wedyn oedd troi'n ôl i chwilio am loches ar y gwastadeddau. Wir i chi, fe fu'r cliff yn ormod i'r fan a'i pherchennog!

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO


CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066



AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

CROESAIR GORFFENNAF



ENW.....
CYFEIRIAD.....
.....CÔD POST.....

4 i lawr yw'r rhai sy'n honni eu bod yn 10 ar draws, 15, 18 a 24 i lawr. Fe'i gwelir mewn grwpiau yn aml, ond fel unigolion y daw enwogrwydd iddynt.

AR DRAWS

- Un sy'n ymwneud â phethau ysbrydol yn rhoi cic i Eyllt yn ôl (6)
- Ffrwythau y bydd plant yn eu taro yn erbyn ei gilydd (8)
- Fe'i gwelir weithiau ar waelod y dudalen (10)
- O saer ffug; mae'n cynhyrchu golch luniau (8)
- Maes Gerallt a'i griw (6)
- Troi'n hylif drwy dwymo (6)
- Y gororau (8)
- Truenus a gofidus (8)
- Twylo (6)
- Eiliad (6)
- Catalog o enwau plant? (8)
- Cwta gyllell? (4)
- Cystadleuaeth ymwan a chwaraeon (10)
- Clwyfau o arch Llifogydd (8)
- Cyfrif (6)

I LAWR

- Un sy'n gweithio â metel gwerthfawr (5)
- Gadael marc drwy anafu (7)
- Bu Kevin yn hael â rhain ers biynyddoedd (5)
- Y Bod Dwyfol (5)
- Yr hyn a gymerwn i'n cadw'n fyw (7)
- Nid Welter ddrysodd wrth wyllo'r ddrama (9)
- Llongwyr (9)
- Anghyfreithlon (9)
- Erfyn pêldroediwr sy'n cael ei gicio? (7)
- Cenedlaetholwr Almaeneg adeg y rhyfel (5)
- 25c ar ben y frenhines (5)



ATEBION MIS MEHEFIN

Derbyniwyd atebion i groesair Mehefin gan Ceinwen Williams, Bethel; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; G. Gill, Bangor; Mabel Parry, Porthmadog; Nant Roberts, Llanrug; Olwen Owen, Llanberis; Moreen Lennon, Llanberis; Mair Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; Nansi Davies, Rhuthun; Nan Owen, Llanberis; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; John Bryn Owen, Groeslon; Eluned Jones, Pwllheli; Jennie Williams, Caernarfon; Ceridwen Williams, Llanrug; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mary Davies, Waunfawr; M. P. Jones, Clynnog; Eirwen Roberts, Tregarth; Mair Foulkes, Penisarwaun;

Rosemary Williams, Tregarth; Dorothy B. Jones, Llanrug a Rhannon Pritchard-Jones, Clynnog Fawr.
Ymgais Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanberis a dynnwyd allan o'r het. Llongyfarchiadau a £5 i chi.
Anfonwch atebion mis Gorffennaf at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon erbyn 31 Awst, os gwelwch yn dda.

DYDDIADUR GORFFENNAF AC AWST

- Sadwrn LLANBERIS a'r NANT:** Trip yr Ysgol Sul.
DEINIOLEN: Y Carnifal.
LLANRUG: Gŵyl Haf y pentref.
- SUL DEINIOLEN a PHENISARWAUN:** Cyfarfod undebol yn Ebeneser am 2 o'r gloch i blant y ddwy Ysgol Sul.
LLANBERIS / ARDAL: Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yn y Capel Coch am 6 o'r gloch. Arweinydd: Mrs Lowri P. Roberts-Williams.
- Llun PENISARWAUN:** Mabolgampau'r Ysgol.
- Mawrth LLANBERIS:** Y Gyfeillach yng Nghapel Jerusalem.
- Iau BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd.
LLANRUG: Cyfarfod Blynnyddol Cangen Llanrug yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch.
- SUL DEINIOLEN:** Cyfarfod Pregethu Libanus am 2 a 5.30 o'r gloch.
- Llun PENISARWAUN:** Noson o Hwyl Haf Cyfeillion yr Ysgol.
LLANBERIS: Dechrau wythnos o weithgareddau y Carnifal. Gweler y manylion yn yr hysbyseb yn y rhifyn hwn.
- Sadwrn LLANBERIS:** Y Carnifal. Yr orymdaith i gychwyn ger Gwesty Tywysog Cymru am 1 o'r gloch. Agorir y Carnifal gan Iona ac Andy (y sêr canu-gwlad).
- Gwener NANT PERIS:** Y Carnifal
- Llun DEINIOLEN:** Cyfarfod Cyhoeddus yng nghwmni Dafydd Wigley, A.S.

MIS AWST

- 24-30: **PENISARWAUN:** Gweithgareddau amrywiol yn Eglwys Santes Helen i godi arian tuag at yr Eglwys.

RHODDION

£10: Siwan Mair, Pencarnisiog. Eddie Davies, Cerrigydrudion.
£5: Mrs Liz Roberts, 7 Lôn y Meillion, Bangor. Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis. Mrs Jennie Roberts, 96 Pentre Helen, Deiniolen. Mrs Jeni Williams, Pennant, Nant Peris. Miss Marian Wyn Jones, Foel, Waunfawr. Bob a Beryl Thomas, Llanrug.
£3: Mr Ellis Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen. Mr

John Williams, 6 'Rallt Goch, Llanberis. Ruth Jones, Llys Arfon, Llanrug.

£2.50: Alison Jones, Foel Cottage, Dinorwig.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

DRAENOG

Tasg syml iawn yw nôl rhywun o stesion Bangor. Dim ond aros ger gwaelod y grisiau sy'n arwain o'r plattform . . . be sy'n haws? Roedd un dyn bach wedi trefnu nôl ei geraint yn ddiweddar ond doedd dim sôn amdano pan gyrhaeddodd y rheini'r stesion. Wedi hir ddisgwyl dyma ffonio adref a chael ar ddeall ei fod wedi cychwyn ers oriau. Aeth ewythr iddo i lawr i Fangor i chwilio amdano ac wrth yrru heibio cefn y stesion pwy welodd o'n eistedd yn ei gar ger y plattform ond y dyn ei hun. Wedi iddo weld y trên yn cyrraedd oedd o'n disgwyl i'r teithwyr ymbalfalu ar draws y cledrau? Ger i'r ffyrnt y tro nesa, 'ngwas i!

CHIROPDIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

CHWARAEON

TLWS YR ECO



Llanrug 'A' — enillwyr Tlws Pêl-droed yr Eco dan 11 oed.

Yr ystadegau moel i ddechrau. Dau gant o blant oedran cynradd yn mwynhau eu hunain mewn cystadlaethau pêl-droed a phêl-rwyd. Tybed fyddai'r rhai a gychwynnodd y gystadleuaeth yn coelio y byddai'r noson wedi tyfu cymaint? Mae wedi hen ennill ei phlwy ac mae mwy a mwy yn cystadlu a gwyllo bob blwyddyn. Rhaid diolch i brifathro a staff Ysgol Gynradd Llanrug am y paratodau — ac am y 'sgliodion arbennig eleni! Diolch yn fawr hefyd i reolwyr a rhieni a fu'n dyfarnu rhai o'r 30 o gêmâu pêl-droed a chwaraewyd. Yr oeddent i gyd yn canmol y plant am eu hymddygiad a'u hymroddiad. Braff oedd gweld Gavin Allen yn crwydro'r maes yn gwyllo'r gêmâu hefyd. Yno hefyd roedd Thomas John Roberts (Llanberis) sydd wedi cyfrannu cymaint i bêl-droed ieuenctid yr ardal. Diolch iddo am gyflwyno'r tlysau ar derfyn y noson.

Am y tro cyntaf cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-rwyd eleni. Daeth wyth tîm a phenderfynwyd eu rhannu'n ddau oedran. Diolch i Mrs Elisabeth Roberts, prifathrawes Ysgol Dolbadarn, a Wendy Jones (rhiant) am gymryd yr awennau gan gynnal noson hynod o lwyddiannus. Mae'n siŵr y bydd y gystadleuaeth yn datblygu ymhellach y flwyddyn nesaf. Cyflwynwyd tlysau i'r enillwyr a hefyd i'r dair ferch mwyaf addawol — Kathy Jones, Llanrug; Iola Non Huws, Llanrug; a Ceri Jones, Llanberis. Llanberis enillodd y brif gystadleuaeth ar gyfer y rhai yna, a Llanrug enillodd yr adran iau.

Yn y gystadleuaeth bêl-droed i flynyddoedd 3 a 4, timau Llanberis 'A' a Waunfawr 'A' ddaeth i'r rownd derfynol. Cafwyd gêm arbennig o dda gyda'r Darans yn cipio'r tlws. Yr hen elynion, Llanberis 'A' a Llanrug 'A' oedd yn brwydro yn rownd derfynol timau blwyddyn 5 a 6. Wel, dyma gêm yn llawn ymroddiad a dawn. Gêm ddarbi go iawn a Llanrug a gadwodd y tlws, diolch i goliau Tom Pritchard a Carl Griffiths. Dyfarnwyd y fedal am chwaraewr y noson i Carl am berfformiad disglair iawn. Dyma asgellwr hen ffasiwn, yn gallu creu a gorio goliau. Gwil Bach arall ar y ffordd efallai? Roedd gan enillydd medal prif chwaraewr yr oedran iau enw cyfarwydd iawn, Gethin Wakeham.

Blwyddyn o orffwys tan y tro nesaf rŵan i'r gystadleuaeth boblogaidd hon. Braff yw mynd adref ar ddiwedd noson wedi blino'n llwyr, ond y blinder hwnnw'n gymysg â boddhad mawr.



Llanberis — enillwyr Tlws Pêl-rwyd yr Eco dan 11 oed.

Ydi'r llygad yn sgwâr bellach?

Dyma'r cyfnod gwaethaf o ran chwaraeon yn y tŷ acw! Cwpan y Byd, Wimbledon a Gêmâu Prawf Criced yn gymysg â'i gilydd, a'r cyfan wrth gwrs ar deledu daearol. Mae tynfa fawr ar y dair camp. Y gobaith yw bod pob achlysur o'r fath nid yn unig yn rhoi gwefr i'r gwylwyr ond hefyd yn denu rhai o'r newydd i chwarae'r gêmâu. Diddorol yw sylwi bod y Llywodraeth yn mynnu bod addysg gorfforol yn orfodol i ddisgyblion oedran cynradd Cymru. Un o'r rhesymau am hyn yw'r gred bod hyn yn siŵr o wella safon timau Cymru'r dyfodol. Mae awgrym clir yma bod angen anelu at gael hyfforddiant positif a deniadol heb anghofio'r angen i fwynhau'r gamp.

Cwpan y Byd sy'n denu'r prif sylw. Mae'n gystadleuaeth wefreiddiol a rhamantus. Yn anffodus yr elfennau negyddol sydd wedi mynd a sylw'r cyfryngau torfol. Mae'r elfen dreisgar ymhlith y cefnogwyr yn afiach ac yn gofyn am gosb lem. Ni ddylai neb a ddyfarnir yn euog gael mynediad i unrhyw gêm yn ei wlad ei hun. Ond dyna'r broblem. Nid yn y meysydd y mae'r rhain yn creu helynt ond y tu allan iddynt. 'Wn i ddim beth yw'r ateb. Ond rhaid cael ateb yn fuan. Ydi gweddill y byd eisiau dod i Loegr ar

gyfer cystadleuaeth 2006? A dyna'r dyfarnu wedyn. Mae anghysondeb rhai penderfyniadau wedi cael effaith mawr ar ganlyniadau rhai gêmâu. Oedd hi'n gic gosb? Oedd angen cymaint o gardiau coch? Ydi pob dyfarnwr sydd yno'n ddigon profiadol i reoli gêmâu mor bwysig? Ydi hi'n amser i gael pedwerydd dyfarnwr yn gwyllo sgrin deledu i helpu i wneud penderfyniadau anodd? Daw llw o gwestiynau i'r meddwl. Mae'n ddiddorol chwilio am dactegau a sustemau newydd. Rwy'n ysgrifennu hyn pan fo gêmâu'r grwpiau yn dirwyn i ben ac nid oes yr un tîm wedi rhoi gwefr i mi hyd yma. Nid yw Brasil mo'r tîm cyflawn yr oedd pawb yn ei ddisgwyl. Mae'n amlwg fod cryfder timau gwledydd Affrica ar gynydd. Gallwn weld erbyn hyn pa mor anodd yw hi i wlad fach fel Cymru wneud unrhyw farc, a ninnau mor brin o adnoddau ar y cae ac oddi arno. Mae'r Alban, yn wahanol i ni, yn brwydro trwy'r rhagbrofion er mwyn cyrraedd y llwyfan mawr ond er hynny digon egwan ydi'r Albanwyr hwythau. Tybed a yw hi'n amser pan fydd gweddill y byd yn mynnu mai tîm gwledydd Prydain fydd yn cystadlu yng Nghwpan y Byd? Elfen arall yw'r mewnllifiad o

Llanrug ar eu ffordd yn ôl



Ni ddaeth llwyddiant i dimau hŷn Llanrug eleni, er iddynt gael tlysau ar gyfer y llumanwr gorau a'r tîm mwyaf disgybledig. Ond mae'n ymddangos bod gwreiddiau'r Clwb yn iach. Cafodd y tîm dan 15 oed dymor gwych dan reolaeth John Williams a chyflawni'r dwbl yng Nghynghrair Gwyrfa. Roedd hyn yn arbennig o dda o gofio mai carfan fechan o 14 sydd yno. Bu'r tymor yn hir oherwydd bod cymaint o gêmâu wedi eu gohirio ar gyfrif tywydd garw. Chwaraewyd 23 o gêmâu ac enillwyd 19 a chael dwy gêm gyfartal a cholli dwy. Sgoriwyd 124 gôl gan ildio dim ond 17. Llwyddodd

Geraint Owen i rwydo 58 o weithiau — tipyn o record. Cyflawnwyd y dwbl trwy gipio Cwpan Coffa Jimmy James wedi curo'r Cofis ym mhob rownd: Segontium 2-1; Clwb Ieuenctid Caernarfon 7-0; a Chae Glyn 2-0. Bydd cryn edrych ymlaen i'r noson wobrwyo ddiwedd y mis. Cafodd yr hogia drip i wyllo Everton yn chwarae yn erbyn Caerlŷr ym Mharc Goodison.

Dymuniadau Gorau

Erbyn diwedd y mis bydd Aled Roberts, Crigyll, Llanrug wedi croesi'r bont yn llythrennol. Rhoddodd wasanaeth teilwng i gynghorau Arfon a Gwynedd fel Cyfarwyddwr Hamdden a bellach mae o ar fin symud i gymryd yr awennau yn y maes hwnnw yn Sir Fôn. Mae'n gadael yr ardal hon wedi iddo osod sylfaen sicr o hyfforddi a threfniadaeth mewn sawl camp. Bu'n frwd ei gefnogaeth i Gymdeithas Chwaraeon Arfon ac, wrth gwrs, yr oedd yn flaengar wrth sefydlu y Noson Wobrwyo flynyddol sydd wedi datblygu yn un o uchafbwyntiau'r byd chwaraeon yn lleol. Pwy all anghofio sgwrs emosiynol Cliff Morgan, neu'r wefr o ddod dan ddylanwad heintus yr anghymharol Tanni Grey? Daeth â'r Ganolfan Tennis i Gaernarfon gan ddenu hyfforddwyr profiadol i'r prif gampau. Yn ein hardal difreintiedig daeth â'r canolfannau at y bobl ac mae'n bosib mai ei her fwyaf i ni yw 'ei bod hi'n amser buddsoddi mewn pobl yn hytrach nag adeiladau'. Bydd Aled yn sicr yn gaffaeliad i'r Monwysion. Dymunwn yn dda iddo a diolch am ei gyfraniad.

dramorwyr sy'n llifo i dimau'r Uwch Adran yn Lloegr. Ym myd criced golygodd y mewnllifiad o dramor fod perfformiadau tîm Lloegr yn dirywio'n arw. Tybed ai dyna fydd tynged pêl-droed hefyd?

A'r dyfarnwyr? Onid yw hi'n annheg rhoi canllawiau iddynt i'w dilyn heb roi cyfle i arbrofi yn eu cynghreiriau cenedlaethol yn gyntaf? Bydd yn ddiddorol gweld beth fydd agwedd y dyfarnwyr yn y cynghreiriau hyn y tymor nesaf. Ydi'r defnydd o'r cardiau coch am gynyddu'n sylweddol a'r gêm yn troi i fod yn gêm 'mewn slipars' chwedl Orig Williams?

Sylwch nad wyf wedi crybwyll Wimbledon. Does gen i ddim diddordeb o gwbl yn y gêm ond pob lwc i bob un fydd yn cystadlu yno. Wel, mae hi'n 6.30 o'r gloch ac mae Wimbledon yn cael sylw'r wraig a dim gêm Cwpan y Byd tan 8 o'r gloch... felly, nôl a fi at yr Hoover!